

BTEC

Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel a Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Medi 2006

Manyleb

Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel a Diploma
Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn
Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant



Qualifications and
Curriculum Authority



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Rewarding Learning

Edexcel, un o gwmnïau Pearson, yw corff dyfarnu mwyaf y DU ac mae'n cynnig cymwysterau a phrofion academaidd a galwedigaethol i fwy na 25,000 o ysgolion, colegau, cyflogwyr a lleoedd dysgu eraill yma ac mewn mwy na 100 o wledydd ledled y byd. Rydym yn cyflwyno 9.4 miliwn o sgrïptiau arholi bob blwyddyn, gyda 3 miliwn yn cael eu marcio ar y sgrîn yn 2005. Mae ein cymwysterau yn cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch, GNVQ, NVQ a chyfres BTEC o gymwysterau galwedigaethol o lefel mynediad i Ddiplomâu Cenedlaethol Uwch BTEC a Graddau Sylfaen. Rydym hefyd yn rheoli'r gwaith o gasglu data, marcio a dosbarthu Profion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a Phrofion Cynnydd Blwyddyn 7.

Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddiwyll. Nid yw Edexcel yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i'w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cyfnodolion, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)

Awdurdodwyd gan Roger Beard

Paratowyd gan Elizabeth Savory and Julie Perkins

Cod Cyhoeddi BA017427

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint

© Edexcel Cyfyngedig 2006

Egwyddorion hanfodol ar gyfer cyflwyno BTEC

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys y rheolau a'r rheoliadau ynghyd â'r unedau a'r arweiniad cysylltiedig i alluogi canolfannau i gyflwyno rhaglen o ddysgu ar gyfer Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel a Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae strwythurau'r cymhwyster yn nodi'r cyfuniad a ganiateir o unedau y mae eu hangen ar ddysgwyr i gwblhau'r cymhwyster. Mae pob uned yn nodi'r canlyniadau bwriadedig ynghyd â'r cynnwys a hefyd yn cynnwys cyngor ac arweiniad ynghylch strategaethau cyflwyno ac asesu priodol. Mae angen glynu at yr egwyddorion generig canlynol er mwyn cyflwyno cymhwyster BTEC i'r safon briodol.

- Mae'r fanyleb yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cyflwyno a chyflawni'r unedau a'r cymhwyster yn gyffredinol yn llwyddiannus. Felly, mae'r fanyleb o bwys i'r dysgwr a'r tiwtor fel ei gilydd. Gellir cyflwyno ac astudio'r unedau unigol ar wahân ond **dylai fod gan y dysgwr a'r cyflwynwyr fynediad i'r wybodaeth lawn a ddarperir i gefnogi'r rhaglen ddysgu.**
- Mae angen i ganolfannau wneud defnydd rheolaidd o wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk) er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf. Yn arbennig, mae'r gofynion yn ymwneud â gwirio'r cymhwyster yn allanol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a chaiff gwybodaeth briodol i ganolfannau ei chynnwys ar y wefan. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Llawlyfr FfCC BTEC Lefel 2/3 diweddaraf (gan gynnwys Cyrsiau Byr ar Lefelau 1–3) a'u bod yn gweithredu unrhyw ddogfennaeth bolisi gysylltiedig sydd wedi'i gosod ar y wefan.**
- Mae'r fanyleb hon yn cynnwys manylion y gweithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd. Mae'n cynnwys cyngor ar bolisi Edexcel mewn perthynas â'i gymwysterau, cynllun ei raglenni astudio a'i ddulliau cyflwyno. **Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisiau a nodir yn y fanyleb.**
- **Mae gofyn bod canolfannau'n recriwtio dysgwyr i gymwysterau BTEC mewn modd gonest.** Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybodaeth a chyngor priodol am y cymwysterau ac y bydd y cymhwyster yn bodloni eu hanghenion. Dylai canolfannau gymryd camau priodol i asesu potensial pob ymgeisydd a llunio barn broffesiynol ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen astudio a chyflawni'r cymhwyster yn llwyddiannus.
- Mae gofyn i ganolfannau ddefnyddio'r wybodaeth yn y fanyleb hon i ddatblygu a chyflwyno rhaglen ddysgu a fydd yn galluogi dysgwyr i gyflawni'r meini prawf graddio a nodir yn y gridiau graddio unedau. **Dylai aseiniadau asesu gynnwys bodloni'r holl feini prawf yn yr uned fel y nodir yn y Grid Graddio ar gyfer pob uned.** Dylai aseiniadau a lunnir gan ganolfannau fod yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn addas at y diben, gan adeiladu ar gymhwyso'r meini prawf graddio. Dylai canolfannau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys astudiaethau achos, arsylwi perfformiad ac asesiadau ag iddynt gyfyngiad amser. Mae arweiniad pellach yn ymwneud â gosod aseiniadau ar gael yn y cyhoeddiad *Getting Started* sydd ar gael ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk).
- Anogir canolfannau i roi pwyslais ar gymhwyso'r meini prawf graddio mewn modd ymarferol, gan ddarparu sefyllfa realistig, lle bynnag y bo'n bosibl, i ddysgwyr ei defnyddio ar gyfer eu gwaith, a gwneud y defnydd mwyaf o weithgareddau ymarferol a phrofiad gwaith. **Mae creu aseiniadau sy'n addas at y diben yn hanfodol i gyflawniad dysgwyr ac ni ellir gorbwysleisio'u pwysigrwydd.**

- Mae'r cymwysterau hyn wedi'u hachredu ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) ac maent yn **gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus fel y pennir gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) o dan Adrannau 96 a 97 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000**. Mae manylion unedau cymwysterau i'w cael ar gronfa ddata Cymwysterau Agored QCA (www.qca.org.uk).
- Mae teitlau'r cymwysterau'n ymddangos yn y rhestrau cyllido sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn gan DfES a'r wefan sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, www.dfes.gov.uk/. **Dylai canolfannau ddefnyddio Rhifau Achredu Cymwysterau'r FfCC (QANs) pan fyddant yn gwneud cais am gyllid cyhoeddus ar gyfer eu dysgwyr**. Mae'r QANs ar gyfer y cymwysterau hyn wedi'u rhestru yn *Atodiad A*.
- Mae'r fanyleb hon wedi'i hachredu gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) tan 31 Ionawr 2008 ac i ddyfarnu tystysgrifau i ddysgwyr tan 31 Ionawr 2010. **Gallai Edexcel ddiweddarau'r fanyleb hon yn ystod cyfnod ei hachrediad a bydd angen i ganolfannau gyfeirio at wefan Edexcel i weld fersiwn ddiweddaraf y fanyleb**.

Rhaid i ganolfannau nad ydynt wedi cynnig cymwysterau BTEC o'r blaen wneud cais am, a derbyn caniatâd i gymeradwyo'r ganolfan cyn y gallant wneud cais am gymeradwyaeth i gynnig y rhaglen. Pan fydd canolfan yn gwneud cais am gymeradwyaeth i gynnig cymhwyster BTEC, bydd gofyn iddynt lofnodi 'cytundeb cymeradwyo'. Mae'r cytundeb cymeradwyo yn ymrwymiad ffurfiol gan bennaeth neu brifathro canolfan i fodloni holl ofynion y fanyleb a'r codau neu'r rheoliadau cysylltiedig.

Cynnwys

Beth yw cymwysterau Cyntaf BTEC?	1
Diploma Cyntaf BTEC	1
Tystysgrif Gyntaf BTEC	1
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	1
Nodweddion allweddol cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	2
Rhesymeg cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	2
Strwythur y cymhwyster	3
Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	3
Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	3
Fformat yr unedau	4
Unedau	7
Uned 1: Deall Datblygiad Plant	9
Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel	19
Uned 3: Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion	27
Uned 4: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant	35
Uned 5: Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant	43
Uned 6: Cefnogi Chwarae a Dysgu Plant	51
Uned 7: Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant o Dan Dair Oed	59
Uned 8: Darparu Cefnogaeth i Blant ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig	69
Asesu a graddio	79
Sicrhau ansawdd	80
Cymeradwyo	80
Asesu risg	80
Gwirio mewnol	80
Gwirio allanol	81
Cyfrifo gradd y cymhwyster	82
Dyfarnu gradd i gymhwysster	82

Cynllun a chyflwyno rhaglenni	84
Dull cyflwyno	84
Adnoddau	84
Ymagwedd gyflwyno	85
Achredu Dysgu Blaenorol (APL)	85
Diwallu anghenion lleol	85
Cyfyngiadau wrth amrywio o fanylebau safonol	85
Mynediad a recriwtio	86
Cyfyngiadau ar fynediad dysgwyr	86
Trefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig	87
Fframwaith Cymwysterau BTEC Edexcel ar gyfer y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	88
Gwybodaeth bellach	89
Cyhoeddiadau defnyddiol	89
Sut mae cyrraedd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	89
Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant	90
Atodiad A	91
Codau QCA	91
Atodiad B	93
Parthau graddio	93
Atodiad C	95
Sgiliau allweddol	95
Mapio'r sgiliau allweddol — crynodeb o'r cyfleoedd a awgrymir ym mhob uned	96
Atodiad D	97
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/mapio gydag NVQ	97
Atodiad E	99
Mapio'r cwricwlwm ehangach	99
Atodiad F	101
Craidd Cyffredin Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer Mapio'r Gweithlu Plant	101
Atodiad G	103
Mapio Fframwaith Materion Genedigaeth i Dair Oed	103

Beth yw cymwysterau Cyntaf BTEC?

Nod cymwysterau BTEC yw darparu cymwysterau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith mewn ystod o sectorau. Fe'u datblygwyd i ddarparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth a/neu i ddarparu cyfleoedd datblygu gyrfaoel i'r rheiny sydd eisoes mewn gwaith. O ganlyniad, maent yn darparu cwrs astudio ar gyfer dysgwyr amser llawn neu ran-amser mewn ysgolion, colegau a chanolfannau hyfforddi. Maent yn cysylltu â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y sector, lle bo'r rhain yn briodol, a chânt eu cefnogi gan y Corff Gosod Safonau (SSB) neu'r Cyngor Sgiliau Sector (SSC) perthnasol. Pan gwblheir cymhwyster Cyntaf BTEC yn llwyddiannus, caiff dysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth neu o fewn eu cyflogaeth bresennol a/neu barhau â'u hastudiaethau yn y maes galwedigaethol.

Diploma Cyntaf BTEC

Mae Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel yn gymhwyster 360 awr o ddysgu dan arweiniad yn cynnwys unedau craidd ac arbenigol sy'n cwmpasu agweddau ar wybodaeth, dealltwriaeth a chymhwyster sy'n ofynnol i gael cyflogaeth yn y sector. Felly, mae Diploma Cyntaf BTEC yn cynnig cymhwyster sy'n gallu ymestyn rhaglen astudio'r dysgwr a darparu pwyslais galwedigaethol o fewn eu rhaglen astudio. Yn yr un modd, mae Diploma Cyntaf BTEC yn cynnig cymhwyster â ffocws i ddysgwyr sy'n dymuno dilyn rhaglen astudio sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u profiad gwaith, neu ag agwedd o'u cyflogaeth y dymunant symud iddi maes o law.

Mae Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhoi i ddysgwyr sy'n llwyddo yn holl ofynion y cymhwyster 'statws ymarferydd cynorthwyol'. Mae hyn yn caniatáu i ddysgwyr llwyddiannus ymgymryd â gwaith dan oruchwyliad o fewn amgylchedd blynyddoedd cynnar (0–8 oed). Fel sy'n berthnasol bob tro, cyfrifoldeb y darpar gyflogwr yw gwirio a yw'r profiad a'r wybodaeth a enillwyd gan y dysgwr yn briodol ar gyfer anghenion y sefydliad gwaith unigol. Dim ond dysgwyr 16 oed neu'n hŷn y gellir eu cofrestru ar y cymhwyster hwn.

Tystysgrif Gyntaf BTEC

Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel yn gymhwyster 180 awr o ddysgu dan arweiniad sy'n cynnig cyfle mewn rhannau hydrin i ddysgwyr gael profiad o gymhwyster galwedigaethol. Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC yn cynnig cymhwyster galwedigaethol â ffocws i ddysgwyr sy'n dymuno dilyn rhaglen astudio fyrrach yn gysylltiedig ag agwedd ar gyflogaeth yr hoffent fynd i mewn iddi; neu flas ar gymhwyster sy'n gallu ymestyn eu rhaglen astudio a darparu profiad cychwynnol o faes galwedigaethol. Bydd hyn hefyd yn galluogi dysgwyr i symud i gymhwyster lefel uwch sy'n berthnasol i'r sector. Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn cynnig golwg ar y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Nid yw'n trwyddedu'r dysgwr i weithio gyda phlant mewn unrhyw fodd. Gellir cofrestru dysgwyr 14 oed neu'n hŷn ar y cymhwyster hwn.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC wedi'u cynllunio i gysylltu â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn y sector, sydd yn eu tro yn sail i'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ). Nid yw cymwysterau Cyntaf BTEC yn honni eu bod yn cyflwyno cymhwyster galwedigaethol yn y sector, a dylid dangos hynny mewn cyd-destun gwaith. Fodd bynnag, mae'r cymwysterau'n darparu llawer o'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr SGC, yn ogystal â datblygu sgiliau ymarferol i baratoi ar gyfer gwaith ac o bosibl cyflawni NVQ maes o law.

Mae pob uned yn nodi agweddau perthnasol ar yr SGC sy'n cael eu cwmpasu gan ganlyniadau a chynnwys yr uned. Mae cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn ymwneud â:

- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Nodweddion allweddol cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant wedi'u datblygu i gefnogi'r sector gofal, dysgu a datblygiad plant i ganolbwyntio ar:

- ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ennill cymhwyster galwedigaethol-benodol a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n berthnasol i'r sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- darparu cyfle posib i symud ymlaen i gymwysterau galwedigaethol lefel uwch megis cymwysterau Cenedlaethol BTEC Lefel 3 Edexcel mewn Blynnyddoedd Cynnar/Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ystod o sgiliau a thechnegau, nodweddion personol a rhinweddau sy'n hanfodol i berfformio'n llwyddiannus yn eu bywyd gwaith.

Rhesymeg cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ac yn darparu gwybodaeth greiddiol i'r safonau hyn. Gellir cyflwyno'r cymwysterau hyn mewn colegau AB ac ysgolion.

Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar gael i ddysgwyr 14 oed a hŷn. Er mwyn diwallu anghenion y cymhwyster hwn, mae angen i ddysgwyr gyflawni 60 awr o leoliad gwaith. Bydd Tystysgrif Gyntaf BTEC yn darparu cyflwyniad i'r sector i'r dysgwyr a chyfle posib i symud ymlaen i Ddiploma Cyntaf Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Gellir symud ymlaen hefyd i gymwysterau lefel uwch, megis cymwysterau Cenedlaethol BTEC mewn Blynnyddoedd Cynnar/Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant neu NVQ Lefel 2 neu 3 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae Diploma Cyntaf BTEC mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar gael i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Er mwyn cyflawni gofynion y Diploma, mae angen i ddysgwyr gwblhau cyfanswm o 300 awr o leoliad gwaith o leiaf. Bydd yr oriau lleoliad gwaith hyn yn galluogi dysgwyr i ennill mwy o brofiad a dirnadaeth o'r sector, ac felly dylai dysgwyr sy'n cwblhau Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant allu symud ymlaen i gyflogaeth yn y sector, mewn rôl dan oruchwyliaeth. Gellir symud ymlaen hefyd i astudio ymhellach, megis cymwysterau Cenedlaethol BTEC mewn Blynnyddoedd Cynnar/Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant neu NVQ Lefel 2 neu 3 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at ansawdd a chydlynid darpariaeth genedlaethol yn y sector hwn. Maen nhw'n darparu llwybr arall i ddarpariaeth academaidd a galwedigaethol TGAU, gan gynnig cyfle i'r dysgwyr gael profiad o'r sector gofal, dysgu a datblygiad plant. Bydd y cymwysterau'n cynorthwyo wrth ddatblygu ystod o sgiliau generig a throsglwyddadwy ac o bosib yn hysbysu penderfyniadau gyrfa neu addysg bellach.

Strwythur y cymhwyster

Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn cynnwys tair uned graidd sy'n darparu ar gyfer cyfanswm cyfansawdd o 180 awr o ddysgu dan arweiniad (DDA) ar gyfer y cymhwyster.

Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant			
Uned	Unedau craidd	DDA	Lefel
1	Deall Datblygiad Plant*	60	2
2	Cadw Plant yn Ddiogel	60	2
3	Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion**	60	2

* Uned 1: Mae cwblhau 30 awr o leoliad gwaith yn ofynnol ar gyfer Deall Datblygiad Plant.

** Uned 3: Mae cwblhau 30 awr arall o leoliad gwaith yn ofynnol ar gyfer Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion.

Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn cynnwys pum uned graidd **plws** un uned arbenigol sy'n darparu ar gyfer cyfanswm cyfansawdd o 360 awr o ddysgu dan arweiniad (DDA) ar gyfer y cymhwyster cyflawn.

Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant			
Uned	Unedau craidd	DDA	Lefel
1	Deall Datblygiad Plant*	60	2
2	Cadw Plant yn Ddiogel	60	2
3	Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion**	60	2
4	Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant	60	2
5	Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant ***	60	2
Uned	Unedau arbenigol		
6	Cefnogi Chwarae a Dysgu Plant	60	2
7	Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant Ifanc o Dan Dair Oed	60	2
8	Darparu Cefnogaeth i Blant ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig	60	2

* Uned 1: Mae cwblhau 30 awr o leoliad gwaith yn ofynnol ar gyfer Deall Datblygiad Plant.

** Uned 3: Mae cwblhau 30 awr arall o leoliad gwaith yn ofynnol ar gyfer Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion.

*** Uned 5: Mae cwblhau 240 awr arall o leoliad gwaith yn ofynnol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant.

Ni cheir cydadferiad ar gyfer Unedau 1, 3 a 5. Rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf gradd llwyddo yn yr unedau hyn, ar ben y gofynion a amlinellir ar dudalen 92 y fanyleb hon, er mwyn cyflawni Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Fformat yr unedau

Mae fformat safonol i bob uned o fewn cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel sydd wedi'i gynllunio i roi arweiniad eglur ar ofynion y cymhwyster i ddysgwyr, tiwtoriaid, aseswyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am fonitro safonau cenedlaethol.

Cyflwynir pob uned yn y modd canlynol.

Teitl yr uned

Caiff teitl yr uned ei achredu gan QCA a bydd y geiriad hwn yn ymddangos ar Hysbysiad Perfformiad (HP) y dysgwr. Mewn cymwysterau Cyntaf BTEC mae pob uned yn cynnwys 30, 60, 90 neu 120 awr o ddysgu dan arweiniad

Lefel FfCC

Dyma lefel astudio'r cymhwyster fel y'i pennir gan y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC).

Oriau dysgu dan arweiniad

'Mesur tybiannol o sylwedd uned' yw'r oriau dysgu dan arweiniad. Mae'n cynnwys amcangyfrif o'r amser y gellid ei ddyrannu i addysgu uniongyrchol, cyfarwyddo ac asesu, ynghyd ag amser dysgu strwythuredig arall fel aseiniadau wedi'u cyfarwyddo neu astudio unigol â chymorth. Nid yw'n cynnwys astudio preifat drwy gymhelliant y dysgwr. Cyngorir canolfannau i ystyried y diffiniad hwn wrth gynllunio'r rhaglen astudio yn gysylltiedig â'r fanyleb hon.

Crynodeb yr uned

Mae crynodeb yr uned wedi'i lunio i roi gwerthfawrogiad o werth yr uned i'r darllenydd yn lleoliad galwedigaethol y cymhwyster yn ogystal ag amlygu ffocws yr uned. Mae'n darparu cipolwg i'r darllenydd ar nodau'r uned a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth allweddol a ddatblygir wrth astudio'r uned. Mae crynodeb yr uned hefyd yn pwysleisio cysylltiadau â'r sector drwy ddisgrifio'r hyn mae'r uned yn ei gynnig i'r sector.

Canlyniadau dysgu

Mae canlyniadau dysgu yn nodi'n union yr hyn y dylai'r dysgwr 'ei wybod, ei ddeall neu fod yn gallu ei wneud' o ganlyniad i gwblhau'r uned.

Cynnwys yr uned

Mae cynnwys yr uned yn nodi dyfnder ac ehangder yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i gynllunio a chyflwyno rhaglen ddysgu sy'n ddigonol i gyflawni pob un o'r canlyniadau dysgu. Caiff hyn ei lywio gan ofynion gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) cysylltiedig. Mae'r cynnwys yn darparu ystod o ddeunydd pwnc ar gyfer y rhaglen ddysgu ac yn pennu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r meini prawf graddio ar gyfer llwyddiant.

Caiff pob canlyniad dysgu ei nodi'n llawn ac yna rhestrir ymadrodd neu gysyniadau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â'r canlyniad dysgu hwnnw mewn print italig wedi'u dilyn gan yr ystod ddilynol o bynciau cysylltiedig.

Yn aml bydd adran cynnwys yr uned yn nodi rhestr o bynciau sy'n darparu ystod y deunydd pwnc y mae angen ei ddysgu er mwyn bodloni'r meini prawf graddio. Gellir rhoi manylion pellach am ddeunydd pwnc mewn rhestrau a nodir mewn cromfachau neu gyda chysylltnod hir sy'n darparu elfennau diffiniedig eitem benodol y pwnc. Lle bydd rhestr deunydd pwnc yn cynnwys 'ee', dylid nodi bod hyn yn darparu ystod amlinellol o'r deunydd i gefnogi eitem benodol y pwnc.

Grid graddio

Mae pob *Grid graddio* yn cynnwys datganiadau ar y meini prawf a ddefnyddir i bennu'r dystiolaeth y mae'n rhaid i bob dysgwr ei chynhyrchu er mwyn llwyddo, cael gradd teilyngdod neu radd rhagoriaeth. Mae'n bwysig nodi bod meini prawf graddio teilyngdod a rhagoriaeth uchel yn cyfeirio at welliant ansoddol yn nhystiolaeth y dysgwr.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Mae'r adran hon wedi'i llunio i roi arweiniad ychwanegol i diwtoriaid ynghyd â manylion pellach ar yr uned er mwyn sicrhau cydlyniaeth dealltwriaeth a chysondeb cyflwyno ac asesu. Fe'i rhennir yn adrannau fel a ganlyn:

- *Cyflwyno* — mae hyn yn esbonio'r cynnwys a'i berthynas â'r canlyniadau dysgu ac yn cynnig arweiniad ynghylch ymagweddau cyflwyno posibl. Mae'r cyngor hwn wedi'i seilio ar y dulliau cyflwyno mwy arferol ond ni fwriedir iddo nacáu ymagweddau amgen.
- *Asesu* — mae hyn yn darparu manylion pellach am natur a math y dystiolaeth y mae angen i ddysgwyr ei chynhyrchu er mwyn llwyddo yn yr uned neu gyflawni'r graddau uwch. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r meini prawf graddio.
- *Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill* — mae hyn yn nodi cysylltiadau ag unedau eraill o fewn y cymhwyster. Gellid defnyddio'r rhain i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cysylltu gwahanol agweddau ar y cymhwyster a chynnig cyfleoedd i integreiddio dysgu, cyflwyno ac asesu. Caiff cysylltiadau â'r Safonau Galwedigaethol eu hamlygu yma.
- *Adnoddau hanfodol* — mae hyn yn nodi unrhyw adnoddau arbenigol y mae eu hangen i ganiatáu i ddysgwyr gynhyrchu'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob uned. Gofynnir i'r ganolfan sicrhau bod unrhyw ofynion yn eu lle pan fydd yn ceisio cymeradwyaeth gan Edexcel i gynnig y cymhwyster.
- *Darllen amlinellol i ddysgwyr* — mae hyn yn darparu rhestr fer o ddeunydd adnoddau i ddysgwyr sy'n meincodi'r lefel astudio.

Sgiliau allweddol

Mae'r adran hon yn nodi manau lle gallai fod cyfleoedd o fewn yr uned i gynhyrchu tystiolaeth i fodloni gofynion unedau sgiliau allweddol. Dylai aseswyr ofalu eu bod yn ymgyfarwyddo â manylebau sgiliau allweddol a gofynion tystiolaeth ac nad ydynt yn dibynnu ar gynnwys yr adran hon wrth gyflwyno tystiolaeth sgiliau allweddol i'w safoni. Dylai canolfannau gyfeirio at wefan QCA (www.qca.org.uk) i weld fersiwn ddiweddaraf y safonau sgiliau allweddol.

Unedau

Uned 1: Deall Datblygiad Plant	9
Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel	19
Uned 3: Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion	27
Uned 4: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant	35
Uned 5: Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant	43
Uned 6: Cefnogi Chwarae a Dysgu Plant	51
Uned 7: Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant o Dan Dair Oed	59
Uned 8: Darparu Cefnogaeth i Blant ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig	69

Uned 1: Deall Datblygiad Plant

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae gwybodaeth am ddatblygiad plant yn hanfodol i unrhyw waith gyda phlant ac mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ennill dealltwriaeth o ddatblygiad o 0–3 oed, 3–7 oed, 7–12 oed a 12–16 oed. Bydd dysgwyr yn darganfod sut mae plant yn datblygu'n gyffredinol o ran twf a datblygiad, ac agweddau gwahanol ar ddatblygiad — corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r uned hefyd yn cyflwyno dysgwyr i'r cysyniad sy'n sail i unrhyw waith gyda phlant, sef arsylwi. Mae arsylwi plant yn darparu modd o ddysgu am blant yn gyffredinol yn ogystal ag unigolion. O ganlyniad, mae'n darparu sail ar gyfer cynllunio er mwyn hybu eu datblygiad pellach. Cyflwynir y dysgwyr i rai o brif ddulliau arsylwi ffurfiol a byddant yn dysgu sut i arsylwi agweddau gwahanol ar ddatblygiad plant.

Yn dilyn hyn, mae'r uned yn galluogi dysgwyr i ystyried pwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi anghenion a datblygiad plant yn y pedwar grŵp oedran gwahanol.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth greiddiol ar gyfer tair elfen gyntaf *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant* y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Cwmpesir y bedwaredd elfen yn unedau eraill y cymhwyster.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 30 awr o leoliad gwaith dan oruchwyliaeth yn yr uned hon.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall twf a datblygiad plant
- 2 Deall rôl arsylwi datblygiad plant yn y gweithle
- 3 Gwybod sut i arsylwi datblygiad plant
- 4 Deall pwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi anghenion a datblygiad plant.

Cynnwys yr uned

1 Deall twf a datblygiad plant

Egwyddorion: cyfannol, gyda phob maes yn gysylltiedig â'i gilydd; graddfeydd gwahanol ond yr un dilyniant yn fras

Cyfnodau a dilyniant: cyfnodau a dilyniant datblygiadol gyffredin yn 0–3 oed, 3–7 oed, 7–12 oed a 12–16 oed

Datblygiad corfforol: sgiliau echddygol bras a manwl gan gynnwys symudiadau cyhyrol mawr; ymsymudiad; cydbwysedd a chydsymud llaw a llygad; maint; taldra; pwysau

Datblygiad emosiynol: ymlyniad; datblygu nifer o ymlyniadau; hunangysyniad; hunaniaeth bersonol; hyder

Datblygiad cymdeithasol: ymddygiad cadarnhaol-gymdeithasol; datblygiad moesol; datblygu ymosoddedd; rôl chwarae hunangyfeiriedig

Datblygiad iaith a chyfathrebu: derbyn; mynegi; patrymau iaith cynnar

Datblygiad deallusol: amgyffrediad; meddwl

Aeddfediad: pwysigrwydd profiadau cadarnhaol a negyddol blaenorol; yr angen am ddisgwyliadau realistig oedolion

Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad: cymhelliant; disgwyliadau oedolion; statws iechyd; etifeddiaeth enetig; rhyw; cefndir teuluol; cefndir cymdeithasol; diwylliannol; ariannol; economaidd ac amgylcheddol; asiantaethau sy'n gweithio dros a chyda phlant a phobl ifanc; effeithiau anabledd neu nam synhwyraidd; effeithiau gwahaniaethu

2 Deall rôl arsylwi datblygiad plant yn y gweithle

Diben arsylwi gofalus: gwybodaeth am blentyn a'i anghenion; mewn sefyllfa lle ceir pryderon ynghylch y plentyn

Dulliau cofnodi arsylwadau: gwahaniaethau rhwng arsylwi ffurfiol ac anffurfiol; samplau amser a digwyddiad; cofnodi, ee cofnodion ar y pryd, rhestri gwirio

Gwrthrychedd: peidio â neidio i gasgliadau cynamserol, ee anwybodaeth, rhagfarn, gwirio safbwyntiau gydag eraill

Adrodd yn ôl: cyfeirio canfyddiadau a phryderon yn briodol, ee yn ôl anghenion y sefydliad

Cyfrinachedd: pwysigrwydd cyfrinachedd; diogelu data; gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth; ystyriaethau moesegol

3 Gwybod sut i arsylwi datblygiad plant

Arsylwi a nodi datblygiad corfforol plant: ee sut y mae plant yn symud, yn cydsymud eu symudiadau, yn defnyddio gofod a chyfarpar mawr, yn trin ac yn defnyddio cyfarpar bach

Arsylwi a nodi datblygiad cymdeithasol ac emosïynol plant: ee sut mae plant yn ymddwyn mewn sefyllfaoedd bob dydd, sut maen nhw'n mynegi eu teimladau a'u hemosiynau, sut maen nhw'n dwyn perthynas â'i gilydd a chydag oedolion, pa mor hyderus yw plant a sut ydynt yn teimlo amdanynt eu hunain (hunangysyniad)

Arsylwi datblygiad deallusol a chyfathrebu plant: ee sut mae plant yn chwarae, yn defnyddio dychymyg, yn cymryd rolau eraill, yn canolbwyntio ar weithgareddau, yn cofio pethau, yn datrys problemau, yn sylwi ar yr hyn sydd o'u cwmpas, yn defnyddio'u synhwyrau i gael gwybodaeth newydd

4 Deall pwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi anghenion a datblygiad plant

Cynllunio: defnyddio arsylwi fel sail i gynllunio; defnyddio asesu, ee amserlenni a rhestri gwirio

Cyfranogiad: sut i gyfrannu at syniadau ac awgrymiadau i gefnogi cynllunio, ee trafodaeth anffurfiol gyda chydweithwyr, cyfarfodydd tîm

Anghenion a datblygiad plant: ee deunyddiau ar gyfer chwarae, offer ar gyfer gweithgareddau, mynd i'r tŷ bach, bwydo, diddyfnu

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio egwyddorion, cyfnodau a dilyniant twf a datblygiad mewn plant	T1 disgrifio'r gwahaniaethau datblygiadol mewn plant o wahanol grwpiau oedran	RH1 cymharu datblygiad plentyn yr ydych wedi ei arsylwi â datblygiad disgwyliedig plentyn o'r oed hwn
LL2 amlinellu datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol, cymdeithasol a chyfathrebu plant 0-3 oed, 3-7 oed, 7-12 oed a 12-16 oed	T2 egluro effeithiau posibl pedwar ffactor ar dwf a datblygiad plant	RH2 disgrifio cryfderau a gwendidau posibl y cynllun i gefnogi datblygiad y plentyn a arsylwyd.
LL3 nodi'r ystod o ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad plant gan gynnwys rôl aeddfeddiad	T3 egluro'r camau a gyflawnwyd i sicrhau arsylwi plant yn effeithiol ac yn briodol	
LL4 disgrifio rôl arsylwi datblygiad plant	T4 awgrymu cynllun i gefnogi datblygiad plentyn yr ydych wedi ei arsylwi.	
LL5 arsylwi a chofnodi datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol, cymdeithasol a chyfathrebu plentyn		
LL6 disgrifio'r broses gynllunio er mwyn cefnogi datblygiad plant.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 14.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Diben yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall datblygiad plant, yn ogystal â sut i arsylwi plant a sut i gynllunio ar gyfer a chefnogi eu datblygiad. Bydd angen i ddysgwyr gael rhywfaint o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hyn o brofiad gwaith ymarferol gyda phlant yn ogystal â rhoi'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar waith.

Gallai strategaethau cyflwyno gynnwys cymysgedd o fewnbwn mewn perthynas â gwybodaeth am ddatblygiad a bydd angen arwain dysgwyr tuag at ddeunyddiau priodol, gan gynnwys adnoddau electronig. Bydd angen deunydd fideo/DVD priodol, ymweliadau â gweithleoedd perthnasol a siaradwyr allanol i gyd-fynd â'r strategaethau hyn.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 30 awr o leoliad profiad gwaith yn yr uned hon. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y grŵp oedran 0–8 a gall gynnwys lleoliadau mewn sefydliadau megis meithrinfeydd, grwpiau chwarae neu ysgolion cynradd. Gellir cwblhau'r 30 awr mewn un sefydliad yn unig, neu gyfuniad o sefydliadau, yn ôl anghenion y dysgwr neu'r ganolfan. Gellir defnyddio'r lleoliad fel cyfrwng i ddysgwyr arsylwi plant.

Argymhellir yn gryf y cyflwynir y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer canlyniad dysgu 1 yn gynnar yn y rhaglen gan fod hyn yn tanategu llawer o'r dysgu sydd yn y cymhwyster cyfan. Yn egwyddorion datblygu, dylai'r dilyniant datblygu gynnwys o'r pen i'r sawdl, o'r mewnlol i'r allanol, y syml i'r cymhleth a'r cyffredin i'r penodol a dylai gynnwys cerrig milltir a chanraddau. Mae angen cynnwys cyfnodau a dilyniannau yma hefyd o ran cyfnodau datblygu cyffredin 0–3, 3–7, 7–12 a 12–16 oed.

Mae angen i'r meysydd datblygu gwahanol — corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol gwmpasu'r pedwar grŵp oedran: 0–3 oed, 3–7 oed, 7–12 oed, 12–16 oed, a dylai'r wybodaeth fod yn addas ar gyfer Lefel 2. Dylid cynnwys datblygu sgiliau cyfathrebu o fewn y meysydd hyn. Dylid cyflwyno cysyniadau damcaniaethol ar lefel sylfaenol yn unig. Dylai datblygiad emosiynol gynnwys cyflwyniadau i syniadau Bowlby, Schaffer, Mead, Cooley a Freud. Dylai datblygiad cymdeithasol gynnwys cyflwyniadau i gysyniadau cyflyru, atgyfnerthu, dysgu cymdeithasol, efelychu, rolau a modelau. Dylai datblygiad deallusol gyflwyno cysyniadau damcaniaethol sylfaenol megis rhai Piaget, Bruner a Chomsky. Dylai cyfathrebu gynnwys 'gwenu', 'parablu mam', 'baldorddi', patrymau iaith cynnar a chystrawen brawddeg.

Mae rhai o'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad yn eithaf cymhleth a gallai strategaethau cyflwyno gynnwys siaradwyr allanol megis gweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, athrawon neu reolwyr meithrinfeydd i ddod ag enghreifftiau go iawn i'r ystafell ddosbarth. Dylid cyflwyno cysyniad aeddfediad — yn hytrach na thwf yn unig — ynghyd ag ystyriaeth o brofiadau cadarnhaol a negyddol blaenorol a'r angen am ddisgwyliadau realistig gan oedolion.

Dylid cyflwyno canlyniad dysgu 2, o ran arsylwi, unwaith eto'n gynnar yn y rhaglen gan y bydd angen i ddysgwyr ddeall a gwybod sut i arsylwi plant cyn iddynt gychwyn ar eu lleoliadau gwaith. Bydd angen i ddysgwyr ddeall dibenion a dulliau cofnodi arsylwi gofalus. Ar y lefel hon, bydd angen i ddysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng sampl digwyddiad a sampl amser yn ogystal â gallu defnyddio rhestr wirio i gyflawni cofnod ar y pryd. Mae'n bwysig eu bod yn deall yr angen i fod yn wrthrychol a pheidio â neidio i gasgliadau a gwirio eu safbwyntiau gydag eraill yn ogystal â chyfeirio canfyddiadau a phryderon at eraill. Byddai ymweliad gan ymarferydd meithrin i siarad am bwysigrwydd arsylwi plant yn ddefnyddiol, a dylai gynnwys pwysigrwydd cyfrinachedd, moeseg arsylwi plant a bod gan weithleoedd gwahanol weithdrefnau gwahanol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Bydd angen i ddysgwyr ymweld â sefydliadau gofal plant yn ogystal â chyflawni lleoliad gwaith er mwyn arsylwi a nodi holl feysydd gwahanol datblygiad plant.

Mae canlyniad dysgu 4 yn ymwneud â chynllunio i gefnogi datblygiad plant. Dylid cyflwyno hwn yn yr ystafell ddosbarth, ond eto, argymhellir gwahodd ymarferydd meithrin neu athro/athrawes i siarad am y modd y mae sefydliadau gofal plant yn defnyddio dulliau asesu gwahanol yn ogystal ag arsylwi er mwyn cynllunio ar gyfer datblygiad neu anghenion pellach plant.

Cwmpesir diwallu anghenion a datblygiad plant yn unedau eraill y cymhwyster. Er enghraifft, cwmpesir darparu amgylchedd cynnes, diogel a chalonogol yn *Uned 4: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant*.

Asesu

Mae angen i'r strategaethau asesu ar gyfer yr uned adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen yn y grid graddio.

Mae LL1, LL2 a LL3 yn ymwneud â chwrdd â chanlyniad dysgu 1: gellir asesu'r meini prawf hyn fel aseiniad cyntaf yn dilyn cyflwyno'r canlyniad hwn. Dylid rhoi'r cyfle ac annog dysgwyr i gwrdd â T1 a T2 hefyd. Er mwyn cyflawni T1, bydd angen disgrifio'r egwyddorion, y dilyniant, y cyfnodau, rôl aeddfediad a manylion datblygu'r gwahanol agweddau. Ar gyfer T2, bydd angen egluro'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad. Gallai'r ffactorau hyn fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae tystiolaeth ar gyfer y meini prawf hyn yn debygol o fod ar ffurf aseiniad ysgrifenedig, a gefnogir efallai gan luniau/posteri.

Asesir canlyniadau dysgu 2 a 3 gan feini prawf LL4 a LL5. Mae'n ofynnol i ddysgwr arsylwi plentyn mewn sefydliad gofal plant ar gyfer LL5, yn ystod y lleoliad gwaith fwy na thebyg. Mae LL4 a LL5 yn gysylltiedig â T3, lle mae angen i ddysgwyr egluro'r camau a gyflawnwyd wrth arsylwi plentyn er mwyn sicrhau y gwnaed yr arsylwi yn ofalus iawn. Bydd angen i'r maen prawf hwn, yn ogystal â LL4, gynnwys ystyriaethau ynghylch y diben, y dull a ddefnyddiwyd, gwrthrychedd, adrodd am ganfyddiadau, cyfrinachedd a moeseg.

Ar lefel ragoriaeth, ar gyfer RH1 bydd angen i'r dysgwr allu defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r arsylwi a'i chysylltu â datblygiad disgwylidig plentyn o'r un oed, gan adeiladu felly ar feini prawf llwyddo a theilyngdod. Mae angen iddynt gymharu agweddau gwahanol datblygiad y plentyn a arsylwyd gyda'r 'normau' disgwylidig ar gyfer oedran y plentyn, ac ymgorffori rhai awgrymiadau am unrhyw wyriadau o'r 'normau', fel y bo'n briodol. Efallai bydd angen arweiniad ar y dysgwyr yn ogystal ag anogaeth i fod yn fwy annibynnol er mwyn cyflawni'r maen prawf hwn.

Asesir canlyniad dysgu 6 gan LL6 lle mae'n ofynnol i'r dysgwr amlinellu sut i gymryd rhan yn y cynllunio i gefnogi datblygiad plant. Dylai hyn gynnwys sut yr asesir plant, defnyddio asesu ac arsylwi yn y broses gynllunio, a sut y maen nhw'n cyfrannu at y broses gynllunio. Dylai dysgwyr allu cyflawni LL6 o ganlyniad i fewnbwn a thrafodaeth yn yr ystafell ddosbarth ond mae'n ofynnol yn T4 bod yr arsylwi wedi cael ei gyflawni gan fod angen i ddysgwyr awgrymu cynllun i gefnogi datblygiad y plentyn a arsylwyd. Ar gyfer RH2, mae hefyd angen i ddysgwyr werthuso'r cynllun awgrymedig, gan gymharu ei gryfderau a'i wendidau ac awgrymu sut y gellir ei wella.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant* yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaeth i Dair Oed: Cyfathrebwr Medrus, Plentyn Cryf, Dysgwr Da.

Adnoddau hanfodol

- Person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned, ee ymarferydd blynyddoedd cynnar, neu ymarferydd diweddar.
- Mynediad i leoliad profiad gwaith (30 awr).
- Amserlenni arsylwi.
- Fideos/DVDs datblygiad.
- Mynediad TG i wefannau perthnasol.

Mae'n ofynnol bod dysgwyr yn cyflawni o leiaf 30 awr o leoliad profiad gwaith yn yr uned hon. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y grŵp oedran 0–8 a gall gynnwys lleoliad mewn sefydliadau megis meithrinfeydd, grwpiau chwarae neu ysgolion cynradd. Gellir cwblhau'r 30 awr mewn un sefydliad yn unig neu mewn cyfuniad o sefydliadau, fel y bo'n briodol i'r dysgwr neu'r ganolfan.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol.

Llyfrau

Lang R — *Children's Thoughts and Feelings* (Nasen/David Fulton, 2005) ISBN 1843123673

Lang R — *Loss and Separation* (Nasen/David Fulton, 2005) ISBN 1843123630

Lang R — *Motivation* (Nasen/David Fulton, 2005) ISBN 1843123657

Lindon J — *Growing Up: 8 Years to Young Adulthood* (NCB, 2001) ISBN 187457961X

Meggitt C a Sutherland G — *Child Development: An Illustrated Guide* (Heinemann, 2004) ISBN 0435420569

Sharman C, Cross W a Vennis D — *Observing Children: A Practical Guide* (Continuum, 2004) ISBN 0826472389

Smidt S — *Observing, Assessing, Planning* (Routledge, 2005) ISBN 041533974X

Cyfnodolion

Nursery World

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylbau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylbau sgiliau allweddol..

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> amlinellu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol a chyfathrebu plant 0–3 oed, 3–7 oed, 7–12 oed a 12–16 oed. 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
	C2.2 Darllen a chrynhoi gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf yn ymwneud â'r un pwnc. Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
	C2.3 Ysgrifennu dau fath gwahanol o ddogfen, gyda phob un yn rhoi gwybodaeth wahanol. Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
Gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> disgrifio rôl arsylwi datblygiad plant. 	GDP2.1 Helpu i osod targedau gyda pherson priodol a chynllunio sut i'w cyrraedd.
	GDP2.2 Cymryd cyfrifoldeb am rai penderfyniadau ynghylch eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella'ch perfformiad.
	GDP2.3 Adolygu cynnydd gyda pherson priodol a darparu tystiolaeth o'ch cyflawniadau.

Gweithio gydag eraill Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> disgrifio'r broses o gynllunio i gefnogi datblygiad plant. 	<p>GE2.1 Cynllunio gwaith gydag eraill.</p> <p>GE2.2 Gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd.</p> <p>GE2.3 Adolygu eich cyfraniad a chytuno ar ffyrdd o wella gweithio gydag eraill.</p>

Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae'n rhaid i gadw plant yn ddiogel fod yn flaenoriaeth mewn unrhyw waith gyda phlant a phrif bwrpas yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall sut i gyflawni hyn.

Cyflwynir dysgwyr i'r broses o baratoi a chynnal amgylchedd diogel a glân lle gall plant ddatblygu heb berygl iddyn nhw, eu hunain nac eraill. Mae hyn yn cynnwys deall y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'r uned hefyd yn cyflwyno dysgwyr i arwyddion a symptomau posibl cam-drin plant a phwysigrwydd dilyn polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â thystiolaeth o'r fath.

Bydd dysgwyr hefyd yn dod i ddeall agweddau gwahanol cynnal diogelwch plant pan ar wibdeithiau. Mae hefyd angen iddynt wybod sut i ymdrin â damweiniau, argyfyngau a salwch plant fel rhan o sicrhau eu diogelwch ac felly bydd yn ofynnol iddynt gyflawni gweithdrefnau sylfaenol cymorth cyntaf. Cânt eu cyflwyno i'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â damweiniau, argyfyngau a salwch.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer pob un o dair elfen *GDDP 202: Helpu i Gadw Plant yn Ddiogel* y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion amgylcheddol a iechyd a diogelwch yn ogystal â'r materion moesol, moesegol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n ymwneud â cham-drin.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall sut i baratoi a chynnal amgylchedd diogel i blant
- 2 Gwybod sut i gefnogi diogelu plant rhag camdriniaeth
- 3 Deall sut i gynnal diogelwch plant ar wibdeithiau
- 4 Gwybod sut i ymdrin â damweiniau, salwch ac argyfyngau.

Cynnwys yr uned

1 Deall sut i baratoi a chynnal amgylchedd diogel i blant

Grwpiau oedran: 0–3 oed; 3–7 oed; 7–12 oed; 12–16 oed

Diogelwch: plant; eich hun; oedolion eraill, ee cydweithwyr, ymwelwyr, rhieni

Goruchwyllo: fel y bo'n briodol; cydbwysu diogelu/diogelwch/risg/her; arferion gweithio diogel

Cynllun a threfn: ystafelloedd; ardaloedd awyr agored; darnau gosod a gosodiadau; dodrefn; maint a safle; yn ôl oed, gallu ac anghenion plant; ystyried anabledau neu anghenion addysgol arbennig

Cyfarpar a deunyddiau: cydymffurfio â pholisïau'r sefydliad; cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr; adrodd am wallau; gwirio i sicrhau hylendid a diogelwch ar ddechrau, yn ystod ac ar ddiwedd y dydd; defnyddio elwydi diogelwch/gorchuddion socedi/cliciedau ffenestri a drysau/gardiau poptai/harneisiau diogelwch; diogelwch gydag anifeiliaid/planhigion/pyllau tywod/dŵr; ardaloedd awyr agored

Arfer hylendid da: egwyddorion croes-heintiad; egwyddorion rheoli heintiau, ee hylifau'r corff, gwaredu gwastraff, trin bwyd yn ddiogel, materion yn ymwneud â lledu HIV a hepatitis, annog arferion hylendid da mewn plant

Deddfwriaeth a rheoliadau: adrannau perthnasol o, ee Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Deddf Diogelu Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelu Bwyd (Hylendid Cyffredinol Bwyd) 1995, Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1995, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002; gofynion rheoliadol a'r sefydliad, ee cymarebau oedolyn:plentyn

2 Gwybod sut i gefnogi diogelu plant rhag camdriniaeth

Polisïau a gweithdrefnau: y sefydliad; eu pwysigrwydd

Mathau o gamdriniaeth: corfforol; emosiynol; rhywiol; esgeulustod; bwlio; aflonyddu; ymwybyddiaeth o effeithiau posib ffactorau cymdeithasol megis camddefnyddio sylweddau

Arwyddion a symptomau: ee methiant i ffynnu, cleisiau, llosgiadau, marciau, angen bwyd, diffyn hylendid a gofal iechyd; newidiadau mewn ymddygiad megis llithro'n ôl, tynnu'n ôl, ymddygiad ymosodol, ceisio sylw'n ormodol

Cefnogaeth: ffyrdd o annog plant i fod yn ymwybodol o'u cyrff eu hunain a deall eu hawliau i beidio â chael eu cam-drin, yn ôl eu hoed, anghenion a gallu, ee gweithgareddau'n cynnwys trafod eu cyrff eu hun

3 Deall sut i gynnal diogelwch plant ar wibdeithiau

Cynllunio a pharatoi: dewis gwibdaith, cysylltu â'r lleoliad, trefniadau cludiant, cyfranogiad teuluoedd, ffurflenni caniatâd/llythyrau, rhestri/manylion y plant ac oedolion eraill, manylion teithio ac yswiriant, asesiad risg, iechyd a diogelwch, ee cymarebau oedolyn:plentyn, cymorth cyntaf, dillad/diogelwch addas, bwyd/cyfarpar addas, cynlluniau wrth gefn, cyswllt mewn argyfwng

Mynd gyda phlant ar wibdaith: cyfathrebu; bod yn ymwybodol o anghenion y plant; gwiriadau diogelwch rheolaidd: ee bod yn sylwgar, gwyliadwriaeth gyson, gwirio bod pob plentyn yn bresennol — cyfrif y plant/cofrestri, sicrhau amddiffyn rhag yr haul

Trefniadau argyfwng: gwybod lleoliad a chynnwys y blwch cymorth cyntaf; cynorthwyo gyda gweithdrefnau argyfwng mewn rôl gefnogol

4 Gwybod sut i ymdrin â damweiniau, salwch ac argyfyngau

Polisiâu a gweithdrefnau: yn berthnasol i'r lleoliad/sefydliad; ar gyfer ymateb i a chofnodi damweiniau ac argyfyngau, ee tân, diogeled, plant coll; pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau, ee cyfarwyddiadau ynghylch diet ac alergeddau plant, pryd i ofyn am gymorth, cynnal diogelwch eraill, darparu sicrwydd a chysur

Cymorth cyntaf sylfaenol: adnabod ac ymateb i dagu, anymwybyddiaeth, anawsterau anadlu, gwaedu, sioc anaffylactig, llosgiadau; sut i drin anafiadau bach, ee ergydion, crafiadau, briwiau

Blwch cymorth cyntaf: lleoliad a chynnwys

Salwch: polisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad; adnabod salwch, ee twymyn, brechau, cur pen, crïo, byr eu hanadl, gwelwedd

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thelyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio sut i baratoi a chynnal amgylchedd diogel i blant	T1 egluo sut i baratoi a chynnal amgylchedd diogel i blant	RH1 cyfiawnhau cynllun, trefn, cyfarpar a deunyddiau sefydliad plant sy'n hysbys iddynt o ran ystyriaethau diogelwch
LL2 amlinellu egwyddorion hylendid sylfaenol ar gyfer sefydliad gofal plant	T2 egluo pwysigrwydd sicrhau y cyflawnir egwyddorion hylendid mewn sefydliad gofal plant	RH2 gwerthuso'r ffyrdd y mae polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â damweiniau, argyfyngau a salwch plant yn sicrhau diogelwch plant.
LL3 nodi mathau, arwyddion a symptomau posibl cam-drin plant a nodi pwysigrwydd dilyn polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad gwaith	T3 egluo'r rhesymau y tu ôl i'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth fynd â phlant ar wibdaith	
LL4 amlinellu'r gweithdrefnau a'r arferion y dylid eu dilyn wrth fynd â phlant ar wibdaith	T4 egluo'r modd y mae polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â damweiniau, argyfyngau a salwch plant, yn helpu i gadw plant yn ddiogel.	

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
<p>LL5 amlinellu'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â damweiniau, argyfyngau a salwch plant mewn sefydliad gofal plant</p> <p>LL6 cyflawni gweithdrefnau sylfaenol cymorth cyntaf.</p>		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 24.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Efallai y daw peth o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer yr uned hon o brofiad gwaith ymarferol, a chaiff rhywfaint eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'u harsylwi ar waith yn y lleoliad gwaith.

Yng nghanlyniad dysgu 1 mae'n ofynnol i ddysgwyr ddeall egwyddorion paratoi a chynnal amgylchedd diogel. Gellir cyflwyno llawer o hyn yn yr ystafell ddosbarth ond dylai fod yn berthnasol i sefydliadau gofal plant. Mae angen cyflwyno dysgwyr, er enghraifft, i bwysigrwydd asesiad risg, egwyddorion hylendid bwyd, pwysigrwydd ac egwyddorion symud a thrin yn ddiogel, ac egwyddorion storio deunyddiau peryglus megis deunyddiau glanhau'n ddiogel. Bydd ymweld â sefydliadau gofal plant a thrafodaethau a chyflwyniadau dosbarth dilynol yn helpu i wneud y dysgu ar gyfer y rhan hon o'r uned yn fwy perthnasol.

Mae diogelu plant yn faes sensitif dros ben ac fe argymhellir yn gryf y cyflwynir canlyniad dysgu 2 gan berson â chymwysterau a phrofiad priodol yn y maes hwn. Argymhellir hefyd y cyflwynir hyn tua diwedd y rhaglen. Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r materion, ond dylid eu cyflwyno mewn modd sensitif.

Mae canlyniad dysgu 3 yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith arloesol grŵp bach neu grŵp cyfan ar thema gwibdeithiau plant. Gallai dysgwyr drefnu gwibdeithiau i blant ifanc, cymryd rhan ynddynt eu hunain, ymweld â lleoliadau addas megis parc bywyd gwyllt a chyflawni arolygon, a/neu gymryd rhan mewn cystadleuaeth o fewn y grŵp ar y thema trefnu gwibdeithiau i blant.

Gellir cyflwyno canlyniad dysgu 4 yn rhannol drwy gyfrwng cymhwyster cymorth cyntaf tebyg i Ddyfarniad BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig. Dylid ei gyflwyno a'i asesu gan berson â chymwysterau priodol.

Asesu

Bydd aseiniadau ysgrifenedig yn darparu rhan fwyaf y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon ond gellir ychwanegu at y rhain, er enghraifft, gyda phosteri/cynlluniau anodedig o sefydliadau gofal plant a chofnodion o gyflwyniadau. Bydd tystysgrif hylendid bwyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer rhai agweddau ar reoli hylendid yng nghanlyniad dysgu 1, a bydd yn gymhwyster ychwanegol defnyddiol i'r dysgwyr. Felly hefyd, darperir tystiolaeth ar gyfer y maen prawf llwyddo terfynol gan dystysgrif cymorth cyntaf berthnasol.

Dylid asesu canlyniad dysgu 3 mewn modd ymarferol os yn bosib. Bydd angen ychwanegu at gofnodion trefnu ymweliad gyda nodiadau ar weithdrefnau ac arferion, ond bydd cyfranogiad dysgwr mewn ymweliad yn ychwanegu at werth a diddordeb yr uned hon.

Gallai aseiniad cyntaf ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer LL1 a LL2, gyda chyfleoedd hefyd ar gyfer cyflawni T1, T2 a RH1. Bydd hyn yn cwmpasu canlyniad dysgu 1. Gellir darparu tystiolaeth ar ffurf darnau ysgrifenedig, poster, cynlluniau anodedig neu ddiagramau, gyda chymhwyster hylendid bwyd i gefnogi agweddau trin bwyd y canlyniad dysgu.

Asesir canlyniad dysgu 2 gan LL3 — nodi mathau, arwyddion a symptomau posibl cam-drin plant a nodi pwysigrwydd dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad gwaith. Gallai hyn ffurfio'r sail ar gyfer ail aseiniad sy'n debygol o fod ar ffurf darn ysgrifenedig. Gellir defnyddio astudiaethau achos fel sail i'r aseiniad, ond rhaid bod yn hynod sensitif gyda'r agwedd hon o'r uned.

Gellir defnyddio trydydd aseiniad ar gyfer LL4 a T3 i asesu canlyniad dysgu 3. Dylai'r asesiad ar gyfer y canlyniad dysgu hwn ddilyn gweithgareddau ymarferol a chynnwys, er enghraifft, dysgwyr yn trefnu a chymryd rhan mewn ymweliad/au, ac o bosib yn cyflawni gweithgareddau asesu risg. Dylai'r ymweliadau fod yn addas i blant ifanc ond does dim angen eu cynnwys o reidrwydd. Gallai dysgwyr ymweld â lleoliadau addas fel grŵp dan oruchwyliaeth, neu gyda'u teuluoedd ar benwythnosau neu yn ystod y gwyliau. Pa bynnag ffordd y'i cesglir, mae'n debyg bydd y dystiolaeth ar ffurf prosiect ysgrifenedig, o bosib gydag ymatebion astudiaeth achos a/neu bosteri neu gofnodion o gyflwyniadau i'w ategu.

Asesir canlyniad dysgu 4 drwy LL5 a LL6, gyda chyfleoedd i gyflawni T4 a RH2. Gallai aseiniad terfynol, yn seiliedig ar y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â damweiniau, argyfyngau a salwch plant mewn sefydliad gofal plant, ffurfio'r sail ar gyfer asesiad. Dylid ychwanegu at y dystiolaeth hon gyda thystiolaeth ar ffurf tystysgrif cymhwyster cymorth cyntaf priodol, megis Dyfarniad BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â *GDDP 202: Helpu i Gadw Plant yn Ddiogel* yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaeth i Dair Oed: Plentyn Iach.

Adnoddau hanfodol

- Person â chymwysterau a phrofiad priodol i gyflwyno agweddau o'r uned, yn enwedig mewn perthynas â diogelu plant, ee gweithiwr cymdeithasol.
- Ystod o gyfarpar cymorth cyntaf.
- Blwch cymorth cyntaf.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiadau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Dryden L — *Essential Early Years* (Hodder Arnold, 2005) ISBN 0340888776

Minett P — *Child Care and Development* (Hodder Arnold, 2005) ISBN 0340889152

Cyfnodolion

Nursery World

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> disgrifio sut i baratoi a chynnal amgylchedd diogel i blant 	<p>TGCh2.1 Chwilio am a dethol gwybodaeth i fodloni eich anghenion.</p> <p>Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf chwilio lluosog mewn un achos o leiaf.</p>
<ul style="list-style-type: none"> amlinellu'r gweithdrefnau a'r arferion y dylid eu dilyn wrth fynd â phlant ar wibdaith 	<p>TGCh2.2 Defnyddio a datblygu'r wybodaeth i gyd-fynd â'r dasg a deillio gwybodaeth newydd.</p>
<ul style="list-style-type: none"> amlinellu'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â damweiniau, argyfyngau a salwch plant mewn sefydliad sy'n hysbys iddynt. 	<p>TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun gyda delwedd, testun gyda rhif, delwedd gyda rhif.</p>
Gweithio gydag eraill Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> amlinellu'r gweithdrefnau a'r arferion y dylid eu dilyn wrth fynd â phlant ar wibdaith. 	<p>GE2.1 Cynllunio gwaith gydag eraill.</p> <p>GE2.2 Gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd.</p> <p>GE2.3 Adolygu eich cyfraniad a chytuno ar ffyrdd o wella gweithio gydag eraill.</p>

Uned 3: Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd rhyngweithio rhyngbersonol mewn sefydliadau gofal plant a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol eu hunain er mwyn paratoi tuag at y posibilrwydd o weithio yn y sector gofal plant.

I gychwyn, bydd dysgwyr yn dod i ddeall nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngbersonol mewn perthynas ag ymddygiad llafar a di-eiriau. Cânt eu hannog i wella'u sgiliau gwrando, ac ystyried yr hyn sy'n achosi anawsterau cyfathrebu a sut y gellir eu goresgyn.

Bydd dysgwyr yn mynd ymlaen i ddatblygu dealltwriaeth o sut i ryngweithio a chyfathrebu gyda phlant yn ogystal ag oedolion.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer tair elfen *GDDP 201: Cyfrannu at Berthnasau Cadarnhaol* Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion cymdeithasol a diwylliannol a chyfle cyfartal.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 30 awr o leoliad gwaith dan oruchwyliaeth fel rhan o'r uned hon.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol
- 2 Deall sut i ryngweithio a chyfathrebu gyda phlant
- 3 Deall sut i ryngweithio a chyfathrebu gydag oedolion.

Cynnwys yr uned

1 Deall nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngpersonol effeithiol

Ymddygiad llafar a di-eiriau: ee ffurf, traw, sŵn, tŵn, cymryd tro, sgiliau holi, gwranddo adlewyrchol, oedi, tawelwch; cyswllt llygaid, mynegiant wynebol, rhyngweithio gyda babanod ar lafar, symudiadau'r corff, osgo, ystumio, tyndra cyhyrol, cyffwrdd, agosrwydd a chyfeiriadaeth, gwahaniaeth diwylliannol; pwysigrwydd y nodweddion hyn wrth rhyngweithio gyda phlant ac oedolion

Sgiliau gwranddo: gwranddo'n weithredol i gyflawni dealltwriaeth; adlewyrchu ac aralleirio mynegiant person arall i wirio dealltwriaeth; rôl y cof wrth wrando'n weithredol

Anawsterau cyfathrebu: gwahaniaethau iaith, ee arwyddieithoedd, anawsterau synhwyrdd, trallod emosiynol; rhwystrau yn yr amgylchedd, ee sŵn, cynllun yr ystafell, goleuadau; rhwystrau i ddeall, ee tybiaethau, gwahaniaethau diwylliannol, systemau cred, stereoteipiau; addasu cyfathrebu ar gyfer y rheiny gydag anawsterau cyfathrebu

Goresgyn rhwystrau: defnyddio cymhorthion cyfathrebu; dehongli ymddygiad di-eiriau; siarad yn glir a defnyddio iaith blaen; addasu'r amgylchedd; deall gwahaniaethau diwylliannol; gwirio dealltwriaeth; defnyddio cyfathrebwyr medrus; deall gwahaniaethau, ee rhwng eich credoau eich hun a chredoau eraill

Hybu hunan-barch: sut y gellir datblygu a chynnal hunan-barch mewn ymateb i adwaith eraill; cyfathrebu sy'n cyfleu parch a gwerth; sut y gall hunan-barch fod dan fygythiad gan gyfathrebu nad yw'n cyfleu gwerth

2 Deall sut i rhyngweithio a chyfathrebu gyda phlant

Grwpiau oedran: 0–3 oed; 3–7 oed; 7–12 oed; 12–16 oed

Rhoi sylw: dangos i blant eu bod yn cael sylw llawn drwy, ee iaith y corff, mynegiant wynebol, iaith ac ystum, gwranddo'n weithredol, ymagwedd ystyriol a llawn cydymdeimlad, holi er mwyn gwirio dealltwriaeth; dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd rhoi sylw

Gweithgareddau i annog cyfathrebu a iaith: cymryd amser i gyfathrebu gyda phlant mewn gweithgareddau bob dydd; defnyddio cerddoriaeth, symud, rhythm, rhigymau, gêmiau a straeon; defnyddio cyswllt llygaid, symudiadau'r corff a'r llais yn effeithiol; defnyddio iaith briodol i wellau sgiliau cyfathrebu a dysgu plant; sicrhau addasrwydd i oedran, anghenion a gallu plant, achub ar bob cyfle i annog datblygu iaith a chyfathrebu plant

Cyfathrebu'n glir: ee cyfathrebu ar lefel y plentyn ei hun, bod yn fodel cyfathrebu da, gwirio dealltwriaeth, cyfleu gwerth safbwyntiau, teimladau a barn, annog mynegi anghenion, gwneud dewisiadau a dulliau gwahanol o gyfathrebu, bod yn glust pan fo angen

Galluogi plant i fynegi eu hunain: ee rhoi amser i blant fynegi eu hunain yn eu ffordd, eu geiriau a'u hamser eu hunain; cydnabod mynegiant plant gan gynnwys mynegi teimladau, galluogi mynegiant drwy a chydabod plant mewn grwpiau, dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd galluogi i blant fynegi eu hunain a chael eu clywed, gan gynnwys mewn grwpiau

3 Deall sut i ryngweithio a chyfathrebu gydag oedolion

Ymagwedd: cwrteisi, parch, defnyddio hoff enwau, rhoi gwerth ar anghenion, dewisiadau, safbwyntiau a barn oedolion, deall pam fod hyn yn bwysig wrth ddatblygu perthnasau cadarnhaol

Dulliau cyfathrebu: defnyddio dulliau sy'n addas i oedolion, addasu dulliau cyfathrebu pan geir anawsterau, rhoi sylw llawn, dangos dealltwriaeth, ymateb yn gadarnhaol gan ddangos parch at safbwyntiau, egluro unrhyw ansicrwydd wrth ddeall, gwneud awgrymiadau a rhoi gwybodaeth pan ofynnir am hyn, ymdopi gydag anghytundebau ag oedolion

Cyfrinachedd: deall bod polisi cyfundrefnol mewn perthynas â chyfrinachedd a chyfnewid gwybodaeth, pwysigrwydd tawelu meddwl oedolion ynghylch cyfrinachedd rhannu gwybodaeth a chyfyngiadau'r cyfrinachedd hwn

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thelyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol	T1 egluro nodweddion allweddol hybu cyfathrebu'n effeithiol a goresgyn anawsterau	RH1 gwerthuso'r rhyngweithio/cyfathrebu a gyflawnir gyda phlant ac oedolion
LL2 amlinellu anawsterau posibl cyfathrebu a sut y gellir eu goresgyn	T2 egluro'r nodweddion gwahanol a thebyg rhwng rhyngweithio a chyfathrebu gyda phlant ac oedolion	RH2 cyfiawnhau'r ffyrdd yr anogwyd plant i fynegi eu hunain yn y rhyngweithio a gyflawnwyd.
LL3 disgrifio sut y gellir defnyddio cyfathrebu i hybu hunan-barch	T3 egluro sut y gellir hybu hunan-barch wrth rhyngweithio gydag oedolion a phlant	
LL4 dangos dealltwriaeth o sut i ryngweithio a chyfathrebu gyda phlant	T4 egluro pam ei fod yn bwysig cael polisi mewn perthynas â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth mewn sefydliad gofal plant.	
LL5 dangos dealltwriaeth o sut i ryngweithio a chyfathrebu gydag oedolion		
LL6 disgrifio polisi mewn sefydliad gofal plant sy'n ymwneud â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 32.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Diben yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol a gallu defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wella'u gallu i ryngweithio a chyfathrebu gyda phlant yn ogystal ag oedolion.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 30 awr o leoliad profiad gwaith yn yr uned hon, yn seiliedig ar y grŵp oedran 0–8. Bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol mewn cyd-destun gofal plant.

Efallai y daw peth o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hyn o brofiad gwaith ymarferol, ond caiff rhywfaint eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'u rhoi ar waith yn y lleoliad gwaith. Bydd rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd cyfathrebu'n briodol gydag oedolion a phlant ac efallai bydd angen cymorth arnynt i oresgyn eu swildod naturiol neu eu dulliau amhriodol o gyfathrebu gydag eraill. Am y rheswm hwn, argymhellir yn gryf y cyflwynir cynnwys yr uned mewn modd ymarferol gyda phwyslais ar chwarae rôl, gweithgareddau ac astudiaethau achos ffug i fagu ac ymarfer sgiliau.

Bydd angen i ddysgwyr ddeall ystod o nodweddion sy'n ymwneud ag ymddygiad llafar a di-eiriau a gallu datblygu eu sgiliau gwranddo. Bydd hefyd angen iddynt ystyried rhwystrau cyfathrebu a sut y gellir eu goresgyn. Mae cymysgedd o ddulliau cyflwyno'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol ar gyfer y rhan hon o'r uned gyda mewnbwn gan diwtor, defnyddio fideos, trafod, chwarae rôl ac astudiaethau achos. Ffordd ddefnyddiol bosibl o gyflwyno'r uned byddai i ddysgwyr wyllo opera sebon poblogaidd ac yna cynnal trafodaeth ddosbarth neu ddefnyddio taflen waith.

Mae hefyd angen i ddysgwyr wybod sut i ddangos gwerth cyfathrebu wrth ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol yn gadarnhaol a sut y gellir datblygu a chynnal hunan-barch mewn ymateb i adwaith eraill. Mae angen iddynt werthfawrogi'r math o gyfathrebu su'n cyfleu parch a gwerth a sut y gellir bygwth hunan-barch gan gyfathrebu nad yw'n cyfleu gwerth. Efallai na fydd y cysyniadau hyn yn hawdd i rai dysgwyr eu deall ar gychwyn y rhaglen. Bydd angen cyflwyno rhan hon yr uned yn rhannol drwy drafod, enghreifftiau ac ymarferion ffug neu astudiaethau achos.

Bydd angen i ddysgwyr ddeall sut i gefnogi plant wrth iddynt fynegi eu hunain yn eu ffordd, eu geiriau a'u hamser eu hunain a chydabod mynegiant plant, gan gynnwys mynegi teimladau. Dylid ymarfer hyn mewn sefyllfa un ac un ac mewn sefyllfa grŵp.

Mae angen i ddysgwyr allu ymarfer cyfathrebu gyda phlant gan gynnwys ar lefel y plentyn ei hun, bod yn fodel da o gyfathrebu, gwirio dealltwriaeth a chyfleu gwerth safbwyntiau, teimladau a barn. Mae hefyd yn bwysig i ddysgwyr ddeall sut i gyfathrebu gyda phlant mewn gweithgareddau bob dydd, defnyddio cerddoriaeth, symud, rhythm, rhigymau, gêmiau a straeon, defnyddio cyswllt llygaid yn effeithiol, symudiadau'r corff a llais. Mae angen iddynt ddefnyddio iaith addas er mwyn gwella sgiliau cyfathrebu a dysgu'r plant; sicrhau addasrwydd i oedran, anghenion a gallu plant, gan ddefnyddio pob cyfle i annog datblygiad iaith a chyfathrebu plant. Dylid dangos llawer o hyn yn naturiol yn ystod y lleoliad gwaith.

Mae hefyd angen i ddysgwyr ddeall sut i ryngweithio gydag oedolion, y gallent ei chael yn anodd ar y dechrau. Mae angen iddynt allu mabwysiadu'r ymagwedd gywir, er enghraifft bod yn gwrtais, dangos parch a defnyddio hoff enwau. Bydd chwarae rôl yn yr ystafell ddosbarth yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygu dealltwriaeth ac ymarfer rhyngweithio.

Yn olaf, mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r angen am gyfrinachedd gan gynnwys pwysigrwydd dilyn polisiau a gweithdrefnau o fewn eu sefydliad profiad gwaith ac mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd tawelu meddwl oedolion, er enghraifft, rhieni, ynghylch cyfrinachedd rhannu gwybodaeth a chyfyngiadau'r cyfrinachedd hwn. Gellir cyflwyno'r pwnc hwn trwy ddefnyddio astudiaeth achos i'w thrafod a'r dysgwyr yn chwarae rôl.

Asesu

Mae llawer o'r asesu ar gyfer yr uned hon yn ymwneud â sefydliadau gwaith gofal plant ac felly, mae angen iddo fod yn ymarferol. Awgrymir y gellid asesu'r uned hon ar ffurf tri aseiniad.

I gychwyn, ar gyfer LL1, LL2, LL3, ac o bosib T1 hefyd, mae angen i ddysgwyr allu disgrifio ac egluro nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngpersonol, gan nodi rhwystrau a sut y gellir eu goresgyn. Mae hefyd angen iddynt ddisgrifio sut y gellir defnyddio cyfathrebu i hybu hunan-barch. Gallai hyn ffurfio sail aseiniad cychwynnol a gellir ei asesu drwy gyfuniad o ddarnau ysgrifenedig, posteri a defnyddio astudiaethau achos.

Gellir defnyddio chwarae rôl i ddatblygu ac ymarfer sgiliau. Yna, gellir defnyddio ail aseiniad er mwyn i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer LL4, LL5 ac o bosib T2, T3, RH1 a RH2. Gellir defnyddio rhyngweithiadau a gofnodwyd neu rhyngweithiadau wedi'u dilyn gan ddatganiadau tyst neu adolygiadau personol, i ddarparu tystiolaeth o gymryd rhan mewn ystod o rhyngweithiadau — gyda phlant o'r gwahanol grwpiau oedran a chydag oedolion. Mae angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn deall egwyddorion cyfathrebu gyda phlant ac oedolion. Gellir ychwanegu at dystiolaeth o rhyngweithio go iawn gyda darnau ysgrifenedig, er enghraifft, ystyried y nodweddion sy'n wahanol a'r nodweddion sy'n debyg rhwng rhyngweithio a chyfathrebu gyda phlant ac oedolion ar gyfer T2, a sut y gwnaeth rhyngweithio penodol o bosib helpu i hybu datblygiad hunan-barch a hyder plentyn ar gyfer T3. Mae'n ofynnol yn RH1 bod dysgwyr yn gwerthuso'r rhyngweithio/cyfathrebu a gyflawnwyd gyda phlant ac oedolion gan ddisgrifio cryfderau a gwendidau, yr hyn a aeth yn dda a'r hyn y gellir ei wella. Mae RH2 yn gofyn bod dysgwyr yn cyfiawnhau'r ffyrdd y rhoddwyd anogaeth i blant i fynegi eu hunain yn y rhyngweithio a gyflawnwyd. Mae angen darn ysgrifenedig/adolygiad personol sy'n nodi cryfderau'r rhyngweithio gyda phlant ac yn egluro sut y rhoddwyd anogaeth i'r plant fynegi eu hunain. Gellir defnyddio adborth gan oruchwylwyr sefydliadau i ychwanegu at y dystiolaeth hon.

Yn olaf gellir defnyddio trydydd aseiniad i gynnwys LL6 ac o bosib T4. Dylid darparu tystiolaeth — fwy na thebyg ar ffurf darn ysgrifenedig — i ddangos bod dysgwyr wedi astudio polisi sy'n ymwneud â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth mewn sefydliad gofal plant.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol *GDDP 201: Cyfrannu at Berthnasau Cadarnhaol*.

Mae hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaethol i Dair Oed: Cyfathrebwr Medrus, Plentyn Cryf, Dysgwr Da.

Adnoddau hanfodol

Yn yr uned hon, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 30 awr o leoliad profiad gwaith. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y grŵp oedran 0–8 a gallai gynnwys lleoliadau mewn sefydliadau megis meithrinfeydd, grwpiau chwarae neu ysgolion cynradd. Gellir cwblhau'r 30 awr mewn un sefydliad yn unig neu gyfuniad o sefydliadau, fel y bo'n briodol i'r dysgwr neu'r ganolfan. Mae'r 30 awr hyn ar ben yr oriau sy'n ofynnol yn *Uned 1: Deall Datblygiad Plant*.

- Person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned.
- Mynediad i leoliad profiad gwaith.
- Fideos/DVDs ar gyfathrebu mewn sefydliad gofal plant.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Lang R — *The Art of Positive Communication* (Nasen/David Fulton, 2005) ISBN 1843123673

Cyfnodolion

Nursery World

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> disgrifio nodweddion allweddol cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol. 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
Gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> dangos dealltwriaeth o sut i ryngweithio a chyfathrebu gydag oedolion. 	GDP2.1 Helpu gosod targedau gyda pherson priodol a chynllunio sut i'w cyrraedd.
	GDP2.2 Cymryd cyfrifoldeb am rai penderfyniadau ynghylch eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella'ch perfformiad.
	GDP2.3 Adolygu cynnydd gyda pherson priodol a darparu tystiolaeth o'ch cyflawniadau.

Uned 4: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae natur amgylcheddau plant yn hanfodol wrth sicrhau'r budd mwyaf i blant o bob oed. Felly, mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd darparu amgylchedd cynnes, diogel a llawn anogaeth.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut i baratoi a chynnal amgylcheddau ar gyfer gofal plant o ran, er enghraifft, iechyd a diogelwch, integreiddio chwarae, a'r hyn sy'n ysgogi plant. Byddant yn dysgu sut i gynnal amgylchedd sy'n adeiladu hyder a gwydnwch plant, drwy gydnabod cyflawniadau, sicrhau cysondeb a helpu plant i gymdeithasu ac ymdopi gyda newid.

Bydd dysgwyr hefyd yn dod i ddeall sut i gefnogi trefn plant. Bydd hyn yn cynnwys darparu bwyd a diod a gofal personol.

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol *GDDP 205: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau i Ddiwallu Anghenion Plant*, gyda rhai cysylltiadau â *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion amgylcheddol a iechyd a diogelwch, yn ogystal â materion cymdeithasol a diwylliannol.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut i baratoi a chynnal yr amgylchedd chwarae a ffisegol
- 2 Deall sut i baratoi a chynnal amgylchedd ysgogol
- 3 Deall sut i gynnal amgylchedd sy'n adeiladu hyder a gwydnwch plant
- 4 Gwybod sut i gefnogi trefn i blant ac integreiddio chwarae.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod sut i baratoi a chynnal yr amgylchedd chwarae a ffisegol

Iechyd a diogelwch: dilyn asesiadau risg a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, rheoliadau sy'n berthnasol i'r amgylchedd, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad cyn ac yn ystod presenoldeb y plant; gwirio gwres ac awyru priodol

Defnyddio'r gwagle: defnyddio gwagle'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau ac amgylcheddau chwarae i blant y tu mewn a'r tu allan; gosod dodrefn, cyfarpar ac adnoddau'n ddiogel; sicrhau bod mynediadau, allanfeydd ac allanfeydd tân yn glir; monitro'r defnydd o'r gwagle cyn, yn ystod ac ar ddiwedd sesiwn y dydd

Diwallu anghenion plant: sicrhau addasrwydd yr amgylchedd, gan gynnwys deunyddiau a chyfarpar chwarae i oedrannau, cyfnodau datblygu ac unrhyw anghenion arbennig neu ychwanegol y plant; sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob plentyn, gan ystyried rhyw, diwylliant ac ethnigrwydd, anghenion a gallu gwahanol y plant

Grwpiau oedran: 0–3 oed; 3–7 oed; 7–12 oed; 12–16 oed

2 Deall sut i baratoi a chynnal amgylchedd ysgogol

Arddangosfeydd: defnyddio arddangosfeydd gweledol a chyffyrddol i ddarparu profiad dysgu cadarnhaol i blant a hybu delweddau cadarnhaol o bobl yn unôl â gwerthoedd ag egwyddorion sector y blynyddoedd cynnar; plant yn cymryd rhan wrth baratoi a chynnal arddangosfeydd; helpu i arddangos gwaith plant mewn ffyrdd sy'n eu hannog ac yn hybu hunan-barch

Defnyddio'r synhwyrau: defnyddio lliwiau, cerddoriaeth a synau, persawrau ac aroglau gwahanol i ddarparu amgylchedd diddorol a chyffrous

Natur yr amgylchedd: newidiadau amgylcheddol rheolaidd i ysgogi diddordebau'r plant; digon o hyblygrwydd, amrywiaeth a dewis adnoddau ar gyfer chwarae yn ôl oed, anghenion a gallu'r plant; annog plant i gymryd rhan yn weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu hamgylchedd a darganfod beth yr hoffent yn eu hamgylcheddau chwarae

3 Deall sut i gynnal amgylchedd sy'n adeiladu hyder a gwydnwch plant

Cyflawniadau: rhoi teilyngdod a chydnabod holl gyflawniadau plant; helpu plant i adnabod eu cyflawniadau eu hunain; helpu plant i gynyddu a chyflawni yn ôl eu hoed, eu hanghenion a'u gallu; annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau; bod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng hunan-barch, hyder a gwydnwch

Newid a chysondeb: egluro newidiadau rhagweladwy yn yr amgylchedd yn glir ac yn onest; darparu sicrwydd, esboniadau a chysur am unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd; effeithiau diogelwch a sicrwydd ar hyder plant, adnabod ansicrwydd a phryder; rôl y gallu i ragweld ymdeimlad plant o ddiogelwch a hyder

Cymdeithasu: darparu amgylchedd sy'n annog plant i gymdeithasu gyda'i gilydd a chydag oedolion; gêmiau anffurfiol a chyfleoedd chwarae i ysgogi ac annog plant

Cefndiroedd: helpu plant i fod yn bositif ynghylch eu cefndiroedd diwylliannol eu hunain

4 Gwybod sut i gefnogi trefn ar gyfer plant ac integreiddio chwarae

Darparu bwyd a diod: deall anghenion maeth sylfaenol plant, yfed dŵr, grwpiau bwyd gwahanol, gofynion maeth; effeithiau diet gwael; amrywiaethau diwylliannol; mathau gwahanol o alergeddau bwyd; pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i ddiogelu plant; pwysigrwydd cefnogi dewisiadau bwyd y plant, gwybodaeth sylfaenol am drin bwyd yn ddiogel

Cysondeb: pwysigrwydd cysondeb yn natblygiad plant; helpu i weithredu trefn gyson i blant

Cydbwysedd: pwysigrwydd darparu chwarae corfforol; helpu plant a chanddynt gyfleoedd chwarae corfforol cyfyngedig; pwysigrwydd darparu amseroedd tawel neu gyfnodau seibiant; cefnogi ac annog plant i chwarae

Gofal personol plant: cefnogi plant wrth ddefnyddio'r tŷ bach; golchi dwylo; gofalu am y croen a'r gwallt; defnyddio cyfleoedd i chwarae; defnyddio taclau ymolchi; diogelwch haul; datblygu a gofalu am y dannedd

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thellyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio'r modd y sicrheir pob agwedd o iechyd a diogelwch mewn amgylcheddau plant	T1 egluro sut y dylid paratoi a chynnal pob agwedd o'r amgylchedd chwarae a ffisegol	RH1 cyfiawnhau defnyddio'r synhwyrâu wrth ysgogi diddordeb a chyfranogiad plant
LL2 amlinellu'r camau angenrheidiol ar gyfer paratoi a chynnal yr amgylchedd chwarae a ffisegol	T2 egluro sut i sicrhau bod yr amgylchedd yn ysgogol i blant	RH2 dadansoddi rôl yr amgylchedd a'r trefniadau gofal wrth adeiladu hyder a gwydnwch plant.
LL3 disgrifio sut i baratoi a chynnal amgylchedd ysgogol	T3 egluro elfennau pwysig cynnal amgylchedd sy'n adeiladu hyder a gwydnwch plant	
LL4 disgrifio sut i gynnal amgylchedd sy'n adeiladu hyder a gwydnwch plant	T4 egluro sut y gellir integreiddio chwarae i bob trefn gofal.	
LL5 disgrifio anghenion maeth sylfaenol plant a darparu bwyd a diod		
LL6 amlinellu sut i gefnogi trefniadau gofal ac integreiddio chwarae i drefniadau.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 40.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Mae'n debyg y bydd rhywfaint o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer yr uned hon yn cael eu dysgu mewn sefydliadau gofal plant i gychwyn, gan atgyfnerthu'r dysgu hwn yn yr ystafell ddsbarth drwy drafod a chyflwyniadau. Gallai fod cyfnerthiad pellach yn y lleoliad profiad gwaith wedi hynny.

Bydd dysgwyr eisoes wedi ystyried agweddau iechyd a diogelwch yr amgylchedd gofal plant yn eu hastudiaethau ar gyfer *Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel*; mae angen i'w dysgu ar gyfer yr uned hon adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd eisoes ac ehangu dealltwriaeth y dysgwyr i agweddau gwahanol.

Wrth ddysgu sut i baratoi a chynnal yr amgylchedd chwarae a ffisegol, mae angen i ddysgwyr wybod sut i ddefnyddio gwagle'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau ac amgylcheddau chwarae i blant y tu mewn a'r tu allan. Mae hefyd angen iddynt wybod sut i osod dodrefn, cyfarpar ac adnoddau'n ddiogel wrth sicrhau bod allanfeydd ac allanfeydd tân yn glir. Ar ben hynny, rhaid iddynt ddeall yr angen i fonitro'r amgylchedd chwarae a ffisegol yn barhaol yn ystod ac ar ôl sesiwn er mwyn cynnal yr amgylchedd gofynnol.

Bydd angen i ddysgwyr wybod sut i sicrhau y cyflawnir yr holl ofynion iechyd a diogelwch, yn dilyn asesiadau risg a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, megis polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad. Yn y lle cyntaf, gall dysgwyr ddarganfod sut y mae'r rhain yn berthnasol i'w hysgol neu goleg eu hunain. Mae angen i ddysgwyr wybod i wirio gwres ac awyru ac y dylid gwirio cyn i'r plant gyrraedd ac yn ystod eu presenoldeb. Gellir cyflwyno rhan hon yr uned ochr yn ochr ag *Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel*.

Dylid deall deunyddiau a chyfarpar chwarae, fel y bônt yn briodol i oedran, cyfnodau datblygiadol ac unrhyw anghenion arbennig y plant, yn ogystal â deall pwysigrwydd bod yn gynhwysol. Bydd angen ystyried hyn yn yr ystafell ddsbarth i gychwyn. Gallai llunio cynllun o sefydliad gofal plant, gydag esboniadau fod yn weithgaredd gwerth chweil, ac yn gysylltiedig ag *Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel*. Yna, mae angen i ddysgwyr ystyried sut i sicrhau bod yr amgylchedd yn ysgogol i blant. Bydd ymweld â sefydliadau gofal plant yn eu galluogi i weld arddangosfeydd, a allai arwain at drafodaethau ac ymarfer yn yr ystafell ddsbarth. Mae angen i ddysgwyr ddeall gwerth arddangosfeydd o'r fath mewn perthynas â bod yn brofiadau dysgu cadarnhaol i blant, gan eu helpu i fagu hunan-barch.

Mae hefyd angen i ddysgwyr ddeall yr angen am amrywiaeth mewn sefydliadau gofal plant, gyda newidiadau amgylcheddol rheolaidd i ysgogi diddordeb a chwilfrydedd plant yn ogystal ag amrywiaeth o ddewis yn y cyfarpar a'r adnoddau chwarae. Er enghraifft, gellir sefydlu ardal chwarae ysbyty neu siop er mwyn ysgogi dysgu plant, gan ystyried eu hoed, eu hanghenion a'u gallu.

Byddai siaradwyr allanol fel gweithwyr gofal plant profiadol yn ddefnyddiol i siarad am eu sefydliad a sut y mae plant yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch eu hamgylcheddau chwarae. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant hŷn.

Mae hefyd angen i ddysgwyr wybod sut i gynnal amgylchedd sy'n magu hyder a gwydnwch plant. Efallai byddant yn gallu defnyddio'u profiadau eu hunain fel man cychwyn defnyddiol a ffocws ar gyfer trafodaeth. Mae angen iddynt ddeall pwysigrwydd cysondeb mewn perthynas â galluogi plant i ragweld ac felly teimlo'n ddiogel ac yn hyderus. Mae hefyd angen iddynt allu adnabod pryder ac ansicrwydd mewn plant a'r angen am gysur a sicrwydd, yn enwedig os oes newidiadau yn yr amgylchedd.

Gellir defnyddio trafodaethau grwpiau bach i ystyried pwysigrwydd cymdeithasu, ar gyfer y dysgwyr eu hunain ac ar gyfer y plant. Dylai hyn gynnwys pwysigrwydd bod yn bositif am wahanol gefndiroedd diwylliannol.

Yn olaf, mae angen i ddysgwyr ddeall sut i gefnogi trefn i blant ac integreiddio chwarae. Unwaith eto, mae angen iddynt ddeall pwysigrwydd cysondeb, yn yr achos hwn, mewn perthynas â threfn. Gellir defnyddio mewnbyn athrawon, gydag ymchwil a chyflwyniadau gan grwpiau bach neu unigolion i ddilyn efallai, i helpu'r dysgwr i ddod i ddeall rhai o'r cysyniadau yma.

Asesu

Mae angen i'r asesu ar gyfer yr uned hon fod yn ymarferol berthnasol i sefydliadau gofal plant.

Gellir defnyddio tri aseiniad i alluogi dysgwyr i ddarparu tystiolaeth ar gyfer asesu'r uned hon.

Gellir asesu canlyniad dysgu 1 drwy aseiniad cychwynnol sy'n trafod LL1, LL2 a T1. Gallai tystiolaeth a gyflwynir gynnwys posteri a chynlluniau, gyda rhai esboniadau, ynghyd â darnau ysgrifenedig neu gyflwyniadau. Dylai'r dystiolaeth adeiladu, ac ehangu, ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer *Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel*.

Yna, gellir asesu canlyniad dysgu 2 gan ail aseiniad sy'n cynnwys LL3, T2 a RH1. Ar gyfer LL3, mae angen i ddysgwyr ddisgrifio sut i baratoi a chynnal amgylchedd ysgogol, gan ehangu ar hyn yn T2 lle mae angen egluro sut i sicrhau bod yr amgylchedd yn un ysgogol. Gallai dysgwyr gefnogi eu tystiolaeth ysgrifenedig, er enghraifft, drwy ddarparu tystiolaeth o gynorthwyo plant i gynhyrchu arddangosfa yn eu lleoliad profiad gwaith. Gallai ffotograffau o'r arddangosfa derfynol, ynghyd â darn ysgrifenedig, ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol. Felly hefyd, gallai dysgwyr helpu i drefnu gweithgaredd ysgogol i blant, neu ardal chwarae ysgogol, a darparu tystiolaeth o hyn. Gallai hyn helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer RH1 hefyd, lle mae angen i ddysgwyr gyfiawnhau defnyddio'r synhwyrau wrth ysgogi diddordeb a chyfranogiad plant.

Gellir defnyddio trydydd aseiniad, a hynny'n un mwy, i asesu LL4, LL5, LL6, T3, T4 a RH2, sy'n cwmpasu canlyniadau dysgu 3 a 4. Mae angen i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer LL4 i ddangos eu bod yn deall sut i gynnal amgylchedd sy'n magu hyder a gwydnwch plant ac, ar gyfer T3, mae angen iddynt egluro elfennau pwysig cynnal yr amgylchedd hwn. Mae angen i'r dystiolaeth gyfeirio at brofiadau eu lleoliad gwaith, gan ddefnyddio enghreifftiau i fwyhau ansawdd y dystiolaeth. Ar gyfer LL5, gellir cyflwyno'r dystiolaeth ar gyfer anghenion maeth plant mewn amrywiaeth o fformatau, megis posteri, cyflwyniadau PowerPoint neu gynlluniau diet gydag esboniadau. Ar gyfer LL6 a T4, mae angen i ddysgwyr ystyried sut y gellir defnyddio trefn i ddiwallu anghenion plant. Mae angen i dystiolaeth ar ddeall pwysigrwydd trefn gynnwys pwysigrwydd integreiddio chwarae i'r drefn hon a phwysigrwydd cysondeb. Gallai hyn gynnwys darn ysgrifenedig yn disgrifio ac yn egluro'r drefn feunyddiol mewn sefydliad gofal plant, gan gynnwys y rhesymau dros y drefn hon a rhoi enghreifftiau o sut y gellir integreiddio gweithgareddau chwarae iddi. Mae angen i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd trefn a chysondeb, wrth ddeall hefyd y gellir integreiddio amrywiaeth o weithgareddau chwarae iddynt. Daw RH2 â meini prawf blaenorol yr aseiniad hwn at ei gilydd, am fod yn rhaid i ddysgwyr ddadansoddi rôl yr amgylchedd a threfniadau gofal wrth fagu hyder a gwydnwch plentyn. Unwaith eto, dylai dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau o'u profiad gwaith i ychwanegu at eu tystiolaeth. Mae angen iddynt fyfyrion ynghylch ac ystyried cryfderau ac unrhyw wendidau a nodwyd mewn enghreifftiau gwirioneddol, gan awgrymu unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Dylai hyn gynnwys hunan fyfyrion ynghylch eu gallu eu hunain i gefnogi'r amgylchedd gofal plant.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol *GDDP 205: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau i Ddiwallu Anghenion Plant* gyda rhai cysylltiadau, fel y nodir, â *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Mae hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaeth i Dair Oed: Plentyn Cryf, Plentyn Iach, Dysgwr Da.

Adnoddau hanfodol

- Mynediad i sefydliad gofal plant.
- Person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol.

Llyfrau

Dryden L — *Essential Early Years* (Hodder Arnold, 2005) ISBN 0340888776

Minett P — *Child Care and Development* (Hodder Arnold, 2005) ISBN 0340889152

Cyfnodolion

Nursery World

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu'r camau angenrheidiol wrth baratoi a chynnal yr amgylchedd chwarae a ffisegol 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
<ul style="list-style-type: none"> • disgrifio sut i baratoi a chynnal amgylchedd ysgogol 	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
<ul style="list-style-type: none"> • disgrifio sut y sicrheir pob agwedd o iechyd a diogelwch mewn amgylcheddau plant 	C2.2 Darllen a chrynhoi gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf yn ymwneud â'r un pwnc. Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
<ul style="list-style-type: none"> • disgrifio anghenion maeth sylfaenol plant a darparu bwyd a diod. 	C2.3 Ysgrifennu dau fath gwahanol o ddogfen, gyda phob un yn rhoi gwybodaeth wahanol. Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 500 gair.

Uned 5: Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ddatblygu'n broffesiynol o fewn eu lleoliad profiad gwaith a dysgu sut i weithio fel rhan o dîm. Mae datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal plant yn elfen bwysig yn natblygiad parhaus y gwaith, drwy adborth a myfyrio.

Yn y lle cyntaf, bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut i gefnogi systemau i ddatblygu eu harfer eu hunain. Mae hyn yn cynnwys dod i wybod am y systemau cefnogi hyn, defnyddio adborth a dysgu i fyfyrion ar eu harfer eu hunain, yn ogystal â ffurfiau eraill o ddatblygiad proffesiynol. Bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd i wella'u harfer eu hunain a chael adborth pellach ar welliannau.

Caiff hyn ei ddilyn gan ddysgu am rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm yn y sefydliad gofal plant. Mae'r dysgwyr yn dod i wybod am y tîm, eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, ac yna sut i ryngweithio gyda'r tîm, gan ddangos ymrwymiad a delio ag unrhyw wrthdaro posibl.

Yn olaf, caiff gwerthoedd a moeseg y gweithle eu hastudio. Bydd y dysgwr yn dod i ddeall sut i gyfathrebu'n briodol, gan ddangos parch a rhoi sylw priodol i gyfrinachedd.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer dwy elfen *GDDP 204: Defnyddio Cefnogaeth i Ddatblygu eich Arfer eich Hun mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant* y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 240 awr o leoliad gwaith dan oruchwyliaeth yn yr uned hon.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall systemau cefnogi i ddatblygu ei ddealltwriaeth ei hun o arfer gofal plant
- 2 Deall gwybodaeth a sgiliau newydd sy'n berthnasol i'w ddealltwriaeth ei hun o arfer
- 3 Deall ei rolau a'i gyfrifoldebau ei hun o fewn y tîm
- 4 Deall gwerthoedd a moeseg yn arfer gwaith gofal plant.

Cynnwys yr uned

1 Deall systemau cefnogi er mwyn datblygu ei ddealltwriaeth ei hun o arfer gofal plant

Systemau cefnogi: ar gyfer goruchwyliaeth, ee tiwtorialau, ymweliadau lleoliad tiwtor, goruchwylwr/mentor lleoliad; cefnogaeth yn y sefydliad gwaith ac yn yr ysgol/coleg; adborth adeiladol ar berfformiad; ennill a defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd yn y sefydliad gwaith

Defnyddio adborth: nodi meysydd arfer sydd angen eu datblygu; nodi targedau, nodau a chyfleoedd datblygu; eglurhad ar eu rôl yn y tîm

Datblygiad proffesiynol: darganfod ffyrdd eraill o ymgymryd â datblygiad proffesiynol, anghenion datblygu mewn perthynas â'r tîm

Defnyddio myfyrio: ystyried cryfderau a gwendidau; ystyried eich arddull ddysgu eich hun ac effaith eich cefndir a'ch profiadau eich hun ar yr arfer

2 Deall gwybodaeth a sgiliau newydd sy'n berthnasol i'w ddealltwriaeth ei hun o arfer

Gwybodaeth a sgiliau: cyfleoedd i ennill gwybodaeth a sgiliau newydd; nodi a defnyddio gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i sefydliad gwaith y blynyddoedd cynnar

Adborth: ar welliannau mewn arfer

3 Deall ei rolau a'i gyfrifoldebau ei hun o fewn y tîm

Tîm: amcanion a diben; rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm

Rolau a chyfrifoldebau: ei rolau a'i gyfrifoldebau ei hun yn y tîm; ei gyfraniad at weithgareddau cyffredinol, amcanion a diben y tîm; cyfrifoldeb realistig am ei ddatblygiad, ei ddysgu a'i berfformiad ei hun

Rhyngweithio gyda'r tîm: cefnogi gweithredu effeithiol y tîm; hysbysu aelodau eraill y tîm ynghylch ei weithgareddau ei hun; derbyn a defnyddio awgrymiadau a gwybodaeth yn adeiladol i wella'i arfer ei hun; cefnogi a chynnig cymorth adeiladol i aelodau eraill y tîm gan gynnwys awgrymiadau, syniadau a gwybodaeth berthnasol

Ymrwymiadau: ymrwymiadau llawn i aelodau eraill y tîm yn ôl blaenoriaethau gwaith; hysbysu aelodau perthnasol y tîm os nad oes modd cyflawni unrhyw ymrwymiad

Delio â gwrthdaro: ymagwedd adeiladol tuag at wahanol safbwyntiau a gwrthdaro gan ddangos parch tuag at farn eraill

4 Deall gwerthoedd a moeseg yn arfer gwaith gofal plant

Cyfathrebu: trin pob aelod o'r tîm yn gyfartal ac yn gynhwysol, fel unigolion, gan barchu eu hurddas, diwylliant, cefndiroedd a gwerthoedd; parchu cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn ôl polisi'r sefydliad

Bod yn ddibynadwy: bod yn ddibynadwy, yn berson y gellir ymddiried yn ddo/yn ddi, yn onest ac yn ddidwyll yn y tîm

Arfer gwrthwahaniaethol: gallu herio sylwadau, gweithredoedd ac arfer sy'n wahaniaethol

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thelyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 cyflawni o leiaf 240 awr o brofiad gwaith mewn sefydliad gofal plant	T1 egluro sut y mae systemau cefnogi wedi helpu i ddatblygu ei ddealltwriaeth ei hun o arfer mewn gofal plant	RH1 gwerthuso datblygiad ei ddealltwriaeth ei hun o arfer yn y sefydliad gofal plant
LL2 disgrifio sut i ddefnyddio systemau cefnogi i ddatblygu ei ddealltwriaeth ei hun o arfer mewn sefydliad gofal plant	T2 egluro sut y mae gwybodaeth a sgiliau newydd wedi effeithio ar ei ddealltwriaeth ei hun o arfer	RH2 gwerthuso'i gyfraniad ei hun tuag at weithredu'r fîm yn y sefydliad gofal plant.
LL3 nodi cryfderau a gwendidau ei ddealltwriaeth ei hun o arfer	T3 egluro sut y mae wedi cefnogi gweithredu'r fîm yn ei sefydliad gwaith ei hun	
LL4 amlinellu gwybodaeth a sgiliau newydd sy'n berthnasol i'w ddealltwriaeth ei hun o arfer mewn gwaith gofal plant	T4 egluro sut y gweithredir gwerthoedd a moeseg mewn gwaith gofal plant.	
LL5 amlinellu ei rolau a'i gyfrifoldebau ei hun fel aelod o dîm mewn sefydliad gwaith gofal plant		
LL6 disgrifio gwerthoedd a moeseg arfer gwaith gofal plant.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 47.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Diben yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu'n broffesiynol a gweithio gydag eraill mewn tîm. Disgwylir i'r uned gael ei chyflwyno'n bennaf drwy brofiad gwaith, ond efallai na fydd hyn yn cychwyn ar ddechrau'r rhaglen er mwyn galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a mwy o aeddfedrwydd. Dylid cyflwyno rhywfaint o wybodaeth am gyfathrebu a datblygiad plant a chadw plant yn ddiogel cyn dechrau'r lleoliad profiad gwaith.

Bydd y rhan fwyaf o wybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer yr uned hon yn dod o brofiad gwaith ymarferol, gyda chefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth. Bydd tiwtorialau yn yr ysgol neu goleg yn chwarae rôl bwysig. Byddai siaradwyr gwadd i drafod eu gwaith a'r modd y maent yn gweithio fel aelod o dîm mewn sefydliad gofal plant hefyd yn ddefnyddiol.

Canlyniad dysgu 1 — Deall systemau cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o arfer gofal plant — gellir cychwyn ar hyn yn gynnar yn y rhaglen fel rhan o baratoi at leoliad profiad gwaith. Bydd yn rhaid i ddysgwyr ddod i wybod am y systemau cefnogi yn yr ysgol/coleg ac yn y lleoliad gwaith. Efallai bydd swyddog lleoli a pherson penodol yn y lleoliad gwaith y gellir cael llawer o wybodaeth oddi wrthynt. Yn gynnar yn ystod y lleoliad, bydd angen i ddysgwyr dderbyn adborth adeiladol ar eu perfformiad ac yna dechrau defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd i adeiladu ar hyn.

Dylai'r adborth hwn helpu i nodi meysydd dealltwriaeth y mae angen eu datblygu ymhellach, gyda nodau, targedau ac eglurhad o'u rôl eu hunain yn y tîm. Bydd angen annog y dysgwyr i fyfyrion yn ystod tiwtorialau, er mwyn nodi cryfderau a gwendidau, eu harddull ddysgu eu hunain ac effaith eu cefndir a'u profiadau eu hunain ar eu dysgu. Bydd hefyd angen i ddysgwyr ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymgymryd â datblygiad proffesiynol, megis darlithoedd, cynadleddau, rhaglenni teledu a phrofiadau ehangach.

Mae angen i ddysgwyr gymryd cyfleoedd i ennill, nodi a defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd sy'n berthnasol i weithio gyda phlant. Yna, dylid defnyddio systemau cefnogi i gael adborth ar welliannau wrth ymarfer.

Mae hefyd angen i ddysgwyr nodi a chyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain o fewn y tîm mewn lleoliad profiad gwaith. Bydd angen iddynt wybod am y tîm, ei amcanion a'i ddiben ac am rolau a chyfrifoldebau aelodau gwahanol o'r tîm. Mae hefyd angen iddynt fod yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, eu cyfraniad i amcanion a diben cyffredinol y tîm, a chael cyfrifoldeb realistig am eu datblygiad, eu dysgu a'u perfformiad eu hunain. Bydd angen iddynt ryngweithio gydag aelodau eraill y tîm er mwyn cefnogi gweithredu'n effeithiol, hysbysu eraill ynghylch eu gweithgareddau, derbyn a defnyddio awgrymiadau a gwybodaeth yn adeiladol i wella eu harfer eu hunain a hefyd i gefnogi a chynorthwyo aelodau eraill y tîm.

Bydd angen i ddysgwyr gyflawni ymrwymadau gwaith a hysbysu eraill os nad oes modd cyflawni'r ymrwymadau hyn. Mae hefyd angen iddynt allu ymdopi â gwrthdaro a chael ymagwedd adeiladol tuag at safbwyntiau gwahanol gan ddangos parch tuag at farn eraill.

Yn olaf, mae angen i ddysgwyr ennill dealltwriaeth o werthoedd a moeseg arfer gwaith yn y sector gofal plant. Wrth gyfathrebu, rhaid trin pob aelod o'r tîm yn gyfartal ac yn gynhwysol gan barchu urddas, diwylliant, cefndiroedd a gwerthoedd eraill. Mae hefyd angen i ddysgwyr fod yn ddbynadwy, yn berson y gellir ymddiried ynddo/ynddi, yn onest ac yn ddidwyll yn y tîm ac yn gallu herio sylwadau, gweithredoedd ac arferion sy'n wahaniaethol. Mae angen trafod llawer o hyn yn y dosbarth ac mewn tiwtorialau.

Asesu

Er mwyn cyflawni'r uned hon, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni o leiaf 240 awr o brofiad gwaith dan oruchwyliaeth mewn sefydliad gofal plant. Gallai tystiolaeth o gyflawni'r 240 awr fod ar ffurf taflen gofnodi a lofnodwyd yn briodol, megis gan y tiwtor neu oruchwyliwr/wyr y lleoliad. Bydd hyn yn darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer LL1. Yn ystod eu profiad gwaith, bydd angen i ddysgwyr adeiladu portffolio o dystiolaeth i fodloni gofynion grid asesu'r uned. Gallai dyddiadur profiad gwaith myfyriol, sydd wedi'i lunio'n dda, fodloni rhan fwyaf o ofynion y grid, megis LL3, LL4, LL5, T2, T3, RH1 a RH2. Gellir ychwanegu at hyn, er enghraifft, gyda darnau ysgrifenedig sy'n trafod defnyddio gwasanaethau cefnogi ar gyfer LL2 a T1, neu er mwyn dangos sut y gweithredir gwerthoedd a moeseg yng ngwaith gofal plant ar gyfer LL6 a T4. Gellir defnyddio datganiadau tystion, ffurflenni adolygu ac adroddiadau lleoliad i ychwanegu at y dystiolaeth hon.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol *GDDP 204: Defnyddio Cefnogaeth i Ddatblygu eich Arfer eich Hun mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*.

Adnoddau hanfodol

Yn yr uned hon, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 240 awr o leoliad profiad gwaith. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y grŵp oedran 0–8 a gallai gynnwys lleoliadau mewn sefydliadau megis meithrinffeydd, grwpiau chwarae neu ysgolion cynradd. Mae'r 240 awr hyn ar ben y 30 awr sy'n ofynnol yn *Uned 1: Deall Datblygiad Plant* a'r 30 awr sy'n ofynnol yn *Uned 3: Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion*.

Argymhellir yn gryf bod dysgwyr yn gallu cyflawni'r 240 awr hyn mewn cyfuniad o wahanol leoliadau er mwyn cael profiadau gwahanol. Awgrymir o leiaf tri lleoliad gwahanol.

Dylid cyflwyno'r uned hon gan berson â chymwysterau priodol. Mae angen cefnogaeth gref ar ddysgwyr yn eu lleoliadau, gan oruchwyliwr y lleoliad ac ymweliadau tiwtor. Awgrymir o leiaf tri ymweliad gan diwtor.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Dryden L — *Essential Early Years* (Hodder Arnold, 2005) ISBN 0340888776

Cyfnodolion

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain fel aelod o dîm mewn sefydliad gwaith gofal plant • disgrifio defnyddio systemau cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o arfer mewn sefydliad gofal plant. 	<p>C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.</p> <p>C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.</p>
Gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • disgrifio defnyddio systemau cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o arfer mewn sefydliad gofal plant. 	<p>GDP2.1 Helpu gosod targedau gyda pherson priodol a chynllunio sut i'w cyrraedd.</p> <p>GDP2.2 Cymryd cyfrifoldeb am rai penderfyniadau ynghylch eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella'ch perfformiad.</p> <p>GDP2.3 Adolygu cynnydd gyda pherson priodol a darparu tystiolaeth o'ch cyflawniadau.</p>

Gweithio gydag eraill Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun fel aelod o dîm mewn sefydliad gwaith gofal plant. 	<p>GE2.1 Cynllunio gwaith gydag eraill.</p> <p>GE2.2 Gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd.</p> <p>GE2.3 Adolygu eich cyfraniad a chytuno ar ffyrdd o wella gweithio gydag eraill.</p>

Uned 6: Cefnogi Chwarae a Dysgu Plant

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae'n hysbys iawn bellach bod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad plant a bod plant yn datblygu ac yn dysgu drwy chwarae. Mae'n bwysig felly i oedolion fod mor effeithiol â phosib wrth ddarparu ar gyfer chwarae, gan annog plant i chwarae a gwybod pryd i gymryd rhan ac ymyrryd mewn gweithgareddau chwarae er mwyn i blant elwa cymaint â phosib.

Nod yr uned hon yw i ddysgwyr gael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i'w galluogi i gefnogi pob agwedd o chwarae a dysgu plant. Yn y lle cyntaf, mae dysgwyr yn dod i ddeall y gwahanol fathau o chwarae a rôl yr oedolyn mewn gweithgareddau chwarae. Yna, maen nhw'n dysgu sut i ddarparu ar gyfer chwarae dychmygus a chreadigol plant drwy ddarparu adnoddau, annog plant ac ymyrryd fel y bo'n briodol. Byddant yn dysgu sut i gefnogi chwarae corfforol, deall ei fanteision i blant a sut i annog a goruchwylio'r math hwn o chwarae.

Yn olaf, bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut i annog plant i archwilio ac ymchwilio wrth chwarae, yr adnoddau angenrheidiol a natur anogaeth oedolion.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer *GDDP 209: Cefnogi Plentyn ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig* a *GDDP 210: Cefnogi Chwarae Plant a Phobl Ifanc* Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r uned hefyd yn cyfrannu at *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Ceir cyfleoedd yma ar gyfer y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion moesol, moesegol, diwylliannol a chymdeithasol, materion yr amgylchedd a chyfle cyfartal.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall sut i gefnogi chwarae plant
- 2 Deall sut i helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus a chreadigol plant
- 3 Deall sut i helpu i gefnogi chwarae corfforol
- 4 Deall sut i annog plant i archwilio ac ymchwilio.

Cynnwys yr uned

1 Deall sut i gefnogi chwarae plant

Deall chwarae: chwarae o wahanol fathau, ee corfforol, trafod a thrin, dychmygus; archwiliadol, creadigol; yr hawl i chwarae, ee Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; pwysigrwydd chwarae rôl yn natblygiad a dysgu plant, ee datblygu sgiliau cyfathrebu, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, datrys problemau, deall cysyniadau mathemategol; datblygu chwarae wrth i blant dyfu'n hŷn

Adnoddau: darparu deunyddiau a chyfarpar ar gyfer y gwahanol fathau o chwarae, ee deunyddiau naturiol megis tywod, dŵr a phren, cyfarpar adeiladu

Anogaeth: annog plant i archwilio a dewis cyfleoedd chwarae ar gyfer eu hunain, addasu syniadau ac adnoddau yn ôl eu hanghenion

Goruchwyliaeth: goruchwyllo chwarae plant, bod ar gael ond heb fod yn ymwithiol; cynnig syniadau ac adnoddau newydd neu ddewisiadau eraill i alluogi hygyrchedd ar gyfer annog ac ysgogi chwarae; gosod rheolau sylfaenol ar gyfer chwarae; sicrhau bod y chwarae'n addas i oedran, anghenion a gallu'r plant

Cyfranogi: cymryd rhan mewn chwarae gyda phlant os mai dyna yw eu dymuniad nhw; gadael i blant ddatblygu eu syniadau chwarae eu hunain heb gynnig gormod o ddiogelwch, na rhy ychydig ohono; sicrhau bod digon o amser a digon o adnoddau i alluogi plant i ddatblygu a dwysáu chwarae yn ôl eu diddordebau

Cwricwlwm: perthynas gwahanol agweddau o chwarae â fframweithiau perthnasol y cwricwlwm, ee cyfatebiaeth un ac un wrth chwarae rôl

Grwpiau oedran: 0–3 oed; 3–7 oed; 7–12 oed; 12–16 oed

2 Deall sut i helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus a chreadigol plant

Adnoddau: darparu a dethol ystod o ddeunyddiau, cyfarpar a chelfi i gefnogi chwarae dychmygus a chreadigol, ee cyfarpar a deunyddiau cornel tŷ bach twt, dillad gwisg ffansi, offerynnau cerdd, paent, glud, past

Ymyrraeth: galluogi chwarae dychmygus plant i ddatblygu, gan ddilyn diddordebau'r plant a gofynion y sefydliad heb ymyrraeth gan oedolyn oni bai bod y plant wedi gofyn am hyn neu phan fydd angen syniadau neu adnoddau ychwanegol

Anogaeth: osgoi stereoteipio wrth chwarae'n ddychmygus yn ôl gofynion y sefydliad; archwilio teimladau a rolau eraill drwy chwarae dychmygus; cymryd rhan mewn gwneud marciau, paentio, tynnu llun, modelu a phrintio

3 Deall sut i helpu i gefnogi chwarae corfforol

Buddion chwarae corfforol: buddion cyffredinol yn cynnwys rhai emosiynol a chymdeithasol

Anogaeth: annog pob plentyn sy'n gallu cymryd rhan mewn chwarae corfforol ac sydd am wneud; cynnwys y rheiny sy'n cael anhawster wrth symud; cymryd rhan mewn chwarae corfforol trwy ddefnyddio'r corff cyfan; cymryd tro ac ystyried eraill; datblygu sgiliau echddygol manwl drwy arbrofi gyda deunyddiau a gweithgareddau priodol, ee edafu, adeiladu bach

Goruchwyliaeth: goruchwyllo chwarae corfforol heb gynnig gormod o ddiogelwch na rhy ychydig ohono; sicrhau defnydd effeithiol o wagle; addasrwydd ar gyfer oedran, anghenion a gallu plant

4 Deall sut i annog plant i archwilio ac ymchwilio

Adnoddau: dod i wybod am adnoddau cymunedol i annog plant i archwilio ac ymchwilio; archwilio ac ymchwilio adnoddau dan do ac awyr agored gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Anogaeth: gweithio gyda chwilfrydedd plant drwy ddarparu gweithgareddau a phrofiadau diddorol ac ysgogol; dangos eich diddordeb eich hun mewn archwilio ac ymchwilio; darparu cyfleoedd ar gyfer archwilio a phrofiadau gwahanol i blant hŷn; cymryd risg; cynnig gormod o ddiogelwch o blant neu rhy ychydig ohono

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thellyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio mathau gwahanol o chwarae	T1 egluro sut y dylid annog a goruchwyllo plant wrth iddynt chwarae	RH1 gwerthuso rôl bosib chwarae corfforol yn natblygiad plant
LL2 disgrifio rôl yr oedolyn yn y ddarpariaeth, annog a goruchwyllo chwarae plant	T2 egluro pam ei fod weithiau'n bwysig i oedolion gymryd rhan ac ymyrryd mewn chwarae dychmygus a chreadigol plant	RH2 gwerthuso rôl yr oedolyn ym mhob agwedd o chwarae plant.
LL3 amlinellu cyfranogiad ac ymyrraeth yr oedolyn mewn chwarae plant	T3 egluro sut y gellir annog chwarae corfforol er lles plant.	
LL4 disgrifio rôl yr oedolyn wrth ddarparu ar gyfer chwarae dychmygus a chreadigol		
LL5 amlinellu buddion chwarae corfforol i blant a sut y gellir ei gefnogi		
LL6 disgrifio sut y gellir annog plant i archwilio ac ymchwilio.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 56.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Diben yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall sut i gefnogi chwarae a dysgu plant.

Bydd rhywfaint o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer yr uned hon yn dod o brofiad gwaith ymarferol ond dysgir y rhan fwyaf yn yr ystafell ddsbarth ac fe'i gwelir a'i roi ar waith yn y lleoliad gwaith. Dylai mewnbwn tiwtoriaid a gweithgareddau dysgwyr, gan gynnwys ymchwil dysgwyr, chwarae rôl flaenllaw wrth gyflwyno'r uned hon. Awgrymir rhai adnoddau isod yn adran adnoddau'r uned ond nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Dylid annog dysgwyr i ddatblygu eu hadnoddau eu hunain, fel grŵp, ar gyfer darparu mathau gwahanol o chwarae. Gallai adnoddau o'r fath gynnwys deunyddiau naturiol diogel, defnyddio deunyddiau pecynnu cynnyrch bob dydd, ystod o wahanol fathau o ddillad a nwyddau cartref bob dydd.

Bydd siaradwyr gwadd i drafod eu gwaith gyda phlant yn cefnogi eu chwarae yn helpu i ychwanegu at ddealltwriaeth y dysgwyr.

Mae canlyniad dysgu 1 yn gofyn bod dysgwyr yn ennill dealltwriaeth drylwyr o chwarae. Bydd angen mewnbwn tiwtor yma gyda thrafodaethau ynghylch natur y chwarae, yr hawl i chwarae, ei bwysigrwydd yn natblygiad a dysgu plant yn ogystal â'r gwahanol fathau o chwarae, gan gynnwys datblygiad chwarae wrth i blant fynd yn hŷn.

Yna, mae angen datblygu hyn i ystyried y ffyrdd y gellir annog plant wrth iddynt chwarae, natur yr oruchwyliaeth wrth chwarae a sut y gallai oedolion gymryd rhan. Mae angen i hyn gynnwys ymagwedd feddylgar a sensitif ar ran y dysgwyr mewn perthynas â'u rôl eu hunain yn chwarae plant, sut y gallant ychwanegu at brofiadau chwarae i blant, ond hefyd sut y gallant efallai amharu ar werth chwarae'r plant os nad ydynt yn ofalus ynghylch eu cyfranogiad nhw. Gallai dysgwyr, naill ai'n unigol, mewn parau neu mewn grwpiau bach, ymchwilio a sefydlu gwahanol fathau o chwarae a disgrifio'u cyfranogiad â phlant.

Dylai canlyniad dysgu 2 gynnwys agweddau therapiwtig chwarae plant mewn perthynas â mynegi eu hanghenion emosiynol. Unwaith eto mae'n bwysig bod darpariaeth yr adnoddau a natur ymyrraeth yr oedolion yn cael eu hystyried yn ofalus yn y dosbarth. Dylai agweddau creadigol y canlyniad hwn gynnwys yr holl agweddau creadigol gan gynnwys tynnu llun, peintio a phob math o gynrychioliadau gan gynnwys cerddoriaeth. Gellir datblygu hyn hefyd i batrymau ysgrifennu a chopio llythrennau gyda phlant hŷn. Dylid annog dysgwyr i gymryd rhan yn sefydlu ystod o weithgareddau chwarae creadigol a dychmygus yn yr ystafell ddsbarth. Efallai bydd modd i rai plant o deuluoedd penodol gael gwahoddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae o'r fath er mwyn i ddysgwyr weld ymatebion y plant ac ystyried eu rôl eu hunain ymhellach.

Ar ben hyn, mae angen helpu dysgwyr i gysylltu agweddau gwahanol chwarae â fframweithiau'r cwricwlwm, ee cyfrif platiau ar gyfer cyfatebiaeth un ac un, dosbarthu a pharu, cymharu, arsylwi, cyfaint, pwysau a phriodweddau deunyddiau a gwrthrychau.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3, mae angen i ddysgwyr wybod sut i helpu i gefnogi chwarae corfforol, ei fuddion a goruchwyllo ac annog chwarae o'r fath. Dylid cwmpasu chwarae echddygol bras egniol yma yn ogystal â chwarae echddygol manwl megis edafu, cyfarpar adeiladu bach a chydymud llaw a llygad.

Ar gyfer canlyniad dysgu 4 mae angen i ddysgwyr wybod sut i annog plant i archwilio ac ymchwilio. Mae hyn yn berthnasol iawn nid yn unig i blant ifanc ond hefyd i blant hŷn. Byddai siaradwr allanol sy'n gweithio gyda phlant hŷn yn ddefnyddiol i gefnogi'r adran hon. Mae angen ystyried risg a chynnig gormod neu rhy ychydig o ddiogelwch i blant mewn perthynas ag archwilio a phrofiadau neu weithgareddau newydd. Bydd angen mewnbwn tiwtor a thrafodaeth ddosbarth gyda hyn.

Asesu

Disgwylir i'r rhan fwyaf o dystiolaeth ar gyfer yr uned hon fod ar ffurf darnau ysgrifenedig gan fod y meini prawf asesu yn gofyn yn bennaf am ddisgrifiad neu eglurhad. Dylai dysgwyr ychwanegu at eu tystiolaeth gyda disgrifiadau a gwerthusiadau o enghreifftiau o waith ymarferol lle y bo'n bosib. Dylai llawer o'u tystiolaeth fod yn seiliedig ar weithgareddau yn y lleoliad profiad gwaith.

Gellir defnyddio pedwar aseiniad i asesu'r uned hon, i gyfateb i'r pedwar canlyniad dysgu.

Gallai'r aseiniad cyntaf gynnwys LL1, LL2, LL3 a T1. Bydd angen i ddysgwyr ddisgrifio'r gwahanol fathau o chwarae ac ystyried rôl yr oedolyn wrth hwyluso, goruchwyllo ac annog chwarae. Bydd enghreifftiau o weithgareddau chwarae o leoliadau gwaith yn galluogi dysgwyr i wella ansawdd y dystiolaeth a gynhrychir.

Gellir defnyddio ail aseiniad i gynnwys LL4 a T2, gan ganolbwyntio ar chwarae dychmygus a chreadigol. Gallai dysgwyr helpu i gynllunio a chyflwyno gweithgaredd chwarae dychmygus a chreadigol penodol, a'i ddefnyddio fel sail dystiolaeth ar gyfer rôl yr oedolyn wrth ddarparu ar gyfer chwarae o'r fath. Gellir datblygu hyn ar gyfer T2 drwy egluro pam ei fod weithiau'n bwysig i oedolion gymryd rhan ac ymyrryd mewn chwarae dychmygus a chreadigol plant.

Gallai'r trydydd aseiniad gynnwys LL5, T3 a RH1, yn seiliedig ar chwarae corfforol. Unwaith eto, dylid defnyddio enghreifftiau o'r lleoliad gwaith fel sail i'r aseiniad.

Gellir defnyddio'r pedwerydd aseiniad ar gyfer LL6, ond hefyd fel cyfrwng i gynnwys RH2, sy'n cynnwys pob agwedd o'r uned trwy ofyn i ddysgwyr werthuso rôl yr oedolyn ym mhob agwedd o chwarae plant.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol *GDDP 209: Cefnogi Plentyn ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig* a *GDDP 210: Cefnogi Chwarae Plant a Phobl Ifanc*.

Mae hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaeth i Dair Oed: Dysgwr Da, Plentyn Iach.

Adnoddau hanfodol

Yr adnodd pwysicaf yw darparu lleoliad gwaith mewn sefydliad sy'n gofalu am blant er mwyn i ddysgwyr ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol yn ogystal â rhoi sgiliau ar waith. Bydd angen person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned hon.

Bydd angen i ganolfannau ddarparu ystod o ddeunyddiau i gefnogi dysgwyr ym mhob agwedd o chwarae plant i gynnwys paent, papurau gwahanol, glud, cardiau gwahanol, cyfarpar adeiladu bach, cyfarpar ar gyfer datblygiad echddygol bras, ee blociau, ystod o ddeunyddiau ar gyfer chwarae dychmygus, gwisg ffansi ac adnoddau sydd ar gael ym meysydd gwahanol bywyd bob dydd.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Aldridge M — *Meeting the Early Learning Goals Through Role Play* (Bookens Ltd, 2003)
ISBN 1843120364

Hobart C a Frankel J — *Activities for Young Children: A Practical Guide* (Nelson Thornes, 2002) ISBN 0748745033

Cyfnodolion

Nursery World

Parents Magazine

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu cyfranogiad ac ymyrraeth yr oedolyn mewn chwarae plant 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu buddion chwarae corfforol i blant a sut y gellir cefnogi hyn 	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
<ul style="list-style-type: none"> • disgrifio'r gwahanol fathau o chwarae 	C2.2 Darllen a chrynhoi gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf yn ymwneud â'r un pwnc. Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu buddion chwarae corfforol i blant a sut y gellir cefnogi hyn. 	C2.3 Ysgrifennu dau fath gwahanol o ddogfen, gyda phob un yn rhoi gwybodaeth wahanol. Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 500 gair.

Uned 7: Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant o Dan Dair Oed

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae gofal a datblygiad babanod a phlant o dan dair oed yn gofyn am wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau penodol. Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddechrau datblygu'r wybodaeth a'r dealltwriaeth hyn yn ogystal â rhai o'r sgiliau sy'n ofynnol i weithio gyda'r grŵp oedran ifanc hwn.

Yn y lle cyntaf, mae angen i ddysgwyr ddeall a goruchwyllo dilyniant disgwylidig ac agweddau gwahanol datblygiad babanod yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd. Mae hefyd yn ofynnol iddynt astudio damcaniaethau a fframweithiau cyfredol perthnasol. Bydd dysgwyr yn adeiladu ar dealltwriaeth flaenorol o bwysigrwydd arsylwi a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni arsylwi plant wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau.

Yna, mae dysgwyr yn dod i ddeall sut i ddarparu gofal corfforol i fabanod a phlant o dan dair oed, gan gyfeirio'n benodol at fwydo, gweithdrefnau gofal cyffredinol ac adnabod arwyddion salwch. Byddant yn dysgu sut i ddarparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad yn y grŵp oedran hwn a sut i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, er mwyn dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer pedair elfen *GDDP 208: Cefnogi Datblygiad Babanod a Phlant o Dan 3 Oed*. Mae'r uned hefyd yn cyfrannu at *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant* mewn perthynas â'r grŵp oedran hwn.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion cymdeithasol, diwylliannol a chyfle cyfartal.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall ac arsylwi trefn a datblygiad disgwylidig babanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd
- 2 Gwybod sut i helpu i ddarparu gofynion gofal corfforol ar gyfer babanod a phlant o dan dair oed
- 3 Deall sut i ddarparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad
- 4 Deall sut i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt.

Cynnwys yr uned

1 Deall ac arsylwi trefn a datblygiad disgwylidig babanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd

Datblygiad: dilyniant; patrwm disgwylidig datblygiad; ystod dderbyniol; prif feysydd; agweddau gwahanol datblygiad; damcaniaethau cyfredol, ee natur/meithrin; fframweithiau cyfredol arfer effeithiol, ee Materion Genedigaeth i Dair Oed; adrodd am bryderon; dilyn polisïau a gweithdrefnau; deddfwriaeth yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth bersonol, ee Deddf Diogelu Data

Arsylwadau: arsylwi babanod a phlant; gwahaniaethau rhwng arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol; yr angen am arsylwadau ffurfiol; angen cael caniatâd rhieni cyn arsylwi; pwysigrwydd arsylwadau cywir a chlir gan ddefnyddio iaith a fformatau derbyniol; cofnodi a rhannu gwybodaeth yn briodol ynghylch cynnydd datblygiadol babanod a phlant ifanc yn ôl gweithdrefnau'r sefydliad; nodi meysydd datblygiad a fyddai'n elwa o ganlyniad i gefnogaeth

2 Gwybod sut i helpu i ddarparu gofynion gofal corfforol ar gyfer babanod a phlant o dan dair oed

Bwydo: paratoi bwyd fformiwla yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr; diheintio cyfarpar yn gywir; bwydo potel yn unol ag arfer presennol, dymuniadau rhieni a gofynion y baban; storio llaeth a odrwyd o'r fron; diddyfnu babanod yn ôl canllawiau arfer gorau; gofynion maeth babanod a phlant o dan dair oed

Gofal cyffredinol: ymolchi, gwisgo, newid babanod a phlant o dan dair oed mewn ffordd sensitif; defnyddio taclau ymolchi priodol; dewis y teulu a gofynion diwylliannau gwahanol; gweithdrefnau hylendid a diogelu a pham fod angen eu dilyn; gwared gwastraff yn ddiogel; gofal croen, dannedd, gwallt; help gyda hyfforddiant tŷ bach

Arwyddion corfforol salwch: arwyddion a symptomau salwch cyffredin; adnabod; ymateb yn briodol

3 Deall sut i ddarparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad

Gweithgareddau chwarae: nodi a dewis gweithgareddau chwarae i gefnogi gwahanol agweddau o ddysgu a datblygiad ar gyfer unigolion a grwpiau; nodi'r adnoddau angenrheidiol; sicrhau bod gweithgareddau'n gynhwysol ag yn rhoi gwerth ar amrywiaeth; sicrhau bod gweithgareddau'n heriol ond o fewn cyrraedd y plentyn unigol; helpu babanod a phlant i ddewis gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau penodol; monitro ymatebion unigol i wahanol weithgareddau, canmol, cefnogi ac annog a pham bod hyn yn bwysig

Cysylltiadau gyda datblygiad: ystyr her; cysylltiad rhwng her a chynnydd datblygiadol; gweithgareddau i gefnogi datblygiad echddygol manwl a bras, cydsymud llaw a llygad, datblygiad iaith drwy wrando ac ymateb, mynegiant emosiynol a chymhwysedd cymdeithasol, dealltwriaeth a sgiliau deallusol, sgiliau dychmygus a chreadigol

Gweithdrefnau ac arfer: dilyn gweithdrefnau ac arfer mewn perthynas â diogelwch ac asesu risg; sicrhau bod gweithgareddau'n unol â chynlluniau cyffredinol y sefydliad

4 Deall sut i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hangenion ac ymateb iddynt

Datblygiad: dilyniant datblygiad cyfathrebu o enedigaeth hyd at dair oed; sut a pham mae babanod yn cyfathrebu o gyfnod eu genedigaeth; cyfnod cyn llefaru; ffyrdd o gefnogi datblygiad cyfathrebu; pwysigrwydd defnyddio fformatau iaith cydnabyddedig gan gynnwys ffurfiau di-eiriau, ee Makaton; cydnabod a gwobrwyo ymdrechion cyfathrebu i annog datblygiad iaith

Ymateb i blant: ymateb i iaith cyn llefaru; defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu gwahanol; nodi anghenion o gyfathrebu babanod a phlant ifanc; dulliau eraill o gyfathrebu pan fydd ystyr yn aneglur; adnabod ac ymateb i adweithiau ymddygiad o ganlyniad i fethiant cyfathrebiad

Siarad â rhieni: siarad yn gadarnhaol am gynnydd cyfathrebu plant

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thellyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 disgrifio datblygiad, gan gynnwys cyfathrebu, babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd	T1 egluro sut i gyflawni arsylwadau o fabanod a phlant ifanc o dan dair oed	RH1 cyfiawnhau arsywli babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd
LL2 amlinellu'r hyn sydd angen ei ystyried wrth arsylwi babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd	T2 egluro sut y dylid bwydo a gofalu am fabanod a phlant ifanc o dan dair oed yn ddiogel	RH2 gwerthuso'r ystod o ddulliau a ddefnyddir wrth gyfathrebu gyda babanod a phlant ifanc o dan dair oed i sicrhau y ceir dealltwriaeth.
LL3 nodi'r hyn y gellir ei ddysgu drwy arsylwi am fabanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd	T3 egluro'r hyn a olygir gan her mewn gweithgareddau chwarae	
LL4 disgrifio bwydo a gofal cyffredinol babanod a phlant ifanc o dan dair oed	T4 egluro sut i ddehongli anghenion ac ymateb i fabanod a phlant ifanc.	
LL5 nodi pum gweithgaredd chwarae gwahanol sy'n helpu i gefnogi gwahanol agweddau o ddysgu a datblygiad		

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thelyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL6 disgrifio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed.		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 65.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall sut i ofalu am a chefnogi datblygiad babanod a phlant ifanc o dan dair oed. Bydd llawer o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer yr uned hon yn dod o brofiad gwaith ymarferol ond fe ddysgir rhywfaint yn yr ystafell ddsbarth ac fe'i gwelir a'i roi ar waith yn y lleoliad profiad gwaith. Gellir dynwared rhai o'r arferion gofal sy'n ymwneud â bwydo, ymolchi, newid a gwisgo yn yr ystafell ddsbarth gyda'r cyfarpar cywir. Dylai mewnbwn athro/athrawes/tiwtor a gweithgareddau dysgwyr, gan gynnwys ymchwil bersonol y dysgwr, chwarae rhan flaenllaw wrth gyflwyno'r uned hon.

Gallai cael siaradwyr gwadd i drafod eu gwaith gyda phlant o dan dair oed fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr.

Er mwyn deall ac arsylwi trefn a datblygiad disgwylidig babanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd, bydd angen i ddysgwyr gael rhywfaint o fewnbwn gan athro/athrawes/tiwtor yn ogystal â'u hymchwil eu hun gan ddefnyddio adnoddau priodol. Bydd hefyd angen mewnbwn athro/athrawes/tiwtor mewn perthynas ag arsylwi, a rhannu gwybodaeth. Bydd dysgwyr yn elwa'n fawr o brofiadau lleoliad gyda'r grŵp oedran hwn er mwyn arsylwi, er enghraifft, sut y mae babanod a phlant y grŵp oedran hwn yn symud ac yn defnyddio'u cyrff, yn cyfathrebu gydag oedolion a phlant eraill, yn mynegi eu teimladau ac yn chwarae.

Mae angen i ddysgwyr ddeall sut i helpu i ddarparu gofal corfforol ar gyfer babanod a phlant o dan dair oed. Gellir efelychu hyn yn yr ystafell ddsbarth gyda chyfarpar priodol, ond bydd angen ychwanegu at y dysgu hwn trwy ddysgu yn y lleoliad profiad gwaith. Mae'n bwysig y cedwir at arfer cyfredol yn ymwneud â bwydo a threfn gofal mewn perthynas â pharatoi bwyd, diheintio, dymuniadau rhieni ac anghenion a dymuniadau'r plentyn. Gellir trafod gofynion maeth y grŵp oedran yn yr ystafell ddsbarth, ynghyd ag arwyddion a symptomau salwch. Mae angen pwysleisio parch tuag at ddewis diwylliannol a theuluol.

Wrth ddysgu sut i ddarparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad, mae angen i ddysgwyr wybod sut i ddewis gweithgareddau i gefnogi agweddau gwahanol dysgu a datblygiad. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau unigol a grŵp a bydd angen deall pwysigrwydd cynhwysiad a gwerth amrywiaeth. Gellir trafod llawer o hyn yn yr ystafell ddsbarth gyda mewnbwn gan yr athro/athrawes/tiwtor, gwaith grŵp bach a thrafodaeth. Bydd dysgwyr yn darganfod ystyr her a'r cysylltiadau rhwng her a chynnydd datblygiadol, gan symud plant o un lefel o ddealltwriaeth, gwybodaeth neu fedr i'r nesaf. Er enghraifft, symud i bos neu ddarn o gyfarpar mwy anodd. Dylai meysydd datblygu sy'n cynnwys gweithgareddau gynnwys datblygiad echddygol bras a manwl, cydsymud llaw a llygad, datblygiad iaith drwy wrando ac ymateb, mynegiant emosiynol, cymhwysedd cymdeithasol a sgiliau deallusol megis sylw a chof, y dychymyg a chreadigrwydd.

Mae hefyd angen i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch ac asesu risg.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt. Gallant ddysgu am ddilyniant datblygiadol datblygiad iaith a chyfathrebu yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal ag ystod o ddulliau cyfathrebu megis Makaton, a'r gwahaniaethau rhwng cyfathrebu geiriol a di-eiriau. Fodd bynnag, bydd angen profiad o'r grŵp oedran hwn arnynt er mwyn iddynt gyflawni gofynion yr uned yn gyfan gwbl. Mae hefyd angen i ddysgwyr ddeall sut i siarad â rhieni am ddatblygiad cyfathrebu eu plant. Gellir efelychu hyn yn y lle cyntaf drwy chwarae rôl yn yr ystafell ddosbarth.

Asesu

Er y dylai llawer o'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon fod ar ffurf darnau ysgrifenedig, mae llawer o'r asesu'n ymwneud â sefydliadau gofal plant, ac felly, mae angen iddo fod yn ymarferol. Gellir defnyddio gweithgareddau ac arsylwadau yn y lleoliad profiad gwaith fel sail ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer gwahanol agweddau o'r uned.

Gellir defnyddio pedwar aseiniad ar gyfer asesu'r uned hon, yn cyfateb i'r pedwar canlyniad dysgu.

Gellir defnyddio aseiniad cyntaf i asesu LL1, LL2 a LL3 gyda chyfleoedd ar gyfer T1 a RH1. Gellir cyflwyno tystiolaeth ar gyfer LL1 drwy ddarn ysgrifenedig, ac ychwanegu ato gydag enghreifftiau profiad gwaith. Gellir hefyd defnyddio cyflwyniad PowerPoint i ddisgrifio'r datblygiad, gan gynnwys cyfathrebu, babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd. Bydd angen i ddysgwyr gyflawni arsylwadau o fabanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd wrth iddynt gyflawni eu lleoliadau gwaith, a defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer LL2, LL3, T1 a RH1.

Gallai'r ail aseiniad ganolbwyntio ar ofal corfforol babanod a phlant o dan dair oed. Dylai'r aseiniad hwn ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gyflwyno'u tystiolaeth ar gyfer LL4 a T2. Unwaith eto, dylai dysgwyr ddefnyddio'u profiadau ar leoliad i helpu fel tystiolaeth ar gyfer y meini prawf hyn. Gallai dysgwyr ddefnyddio cyfuniad o bosteri anodedig, taflen, darn ysgrifenedig, neu gofnodion cyflwyno i gyflwyno'u tystiolaeth.

Gellir defnyddio trydydd aseiniad i ddarparu cyfleoedd asesu ar gyfer LL5 a T3, gan ganolbwyntio ar weithgareddau chwarae. Byddai disgrifiadau'n seiliedig ar weithgareddau go iawn y bu'r dysgwyr yn eu cefnogi'n dystiolaeth wych yma. Dylid eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan oruchwyliaeth gyda babanod a phlant ifanc o dan dair oed yn y lleoliad profiad gwaith, a disgrifio'r gweithgareddau hyn, gan eu defnyddio fel sail ar gyfer cyflawni'r meini prawf.

Gellir defnyddio'r pedwerydd aseiniad i alluogi dysgwyr i gyflawni LL6 ac o bosib T4 a Rh2, ar y thema cyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed. Ar gyfer LL6, dylai dysgwyr ddisgrifio'r gwahanol ddulliau y maen nhw neu eraill wedi'u defnyddio i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed. Gellir ehangu ar hyn ar gyfer T4, gyda dysgwyr yn amlinellu sut i ddehongli anghenion y grŵp oedran hwn ac ymateb iddynt, a hefyd ar gyfer RH2, lle mae angen gwerthuso ystod y dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda'r grŵp oedran.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn berthnasol i Faterion Genedigaeth i Dair Oed ym mhob un o'r pedair agwedd yn ogystal â *GDDP 208: Cefnogi Datblygiad Babanod a Phlant o dan Dair Oed* a *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Adnoddau hanfodol

Er mwyn cyflwyno ac asesu'r uned hon, mae angen ystod o gyfarpar a deunyddiau ar gyfer bwydo, newid a golchi babanod a phlant ifanc.

- Mae angen mynediad i fabanod a phlant ifanc o dan dair oed yn y lleoliad gwaith.
- Bydd angen person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Stoppard M — *New Baby Care Book: A Practical Guide In The First Three Years* (Dorking Kindersley, 2002) ISBN 0751336092

Westcott P — *Healthy Food For Babies and Toddlers* (Marshall, 1998) ISBN 1840280999

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylebau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylebau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu'r hyn sydd angen ei ystyried wrth arsylwi babanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd • disgrifio datblygiad, gan gynnwys cyfathrebu, babanod a phlant yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd. 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
	C2.2 Darllen a chrynhoi gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf yn ymwneud â'r un pwnc. Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
	C2.3 Ysgrifennu dau fath gwahanol o ddogfen, gyda phob un yn rhoi gwybodaeth wahanol. Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • nodi pum gweithgaredd chwarae gwahanol sy'n helpu i gefnogi agweddau gwahanol dysgu a datblygiad. 	TGCh2.1 Chwilio am a dethol gwybodaeth i fodloni eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf chwilio lluosog mewn un achos o leiaf.
	TGCh2.2 Defnyddio a datblygu'r wybodaeth i gydfynd â'r dasg a deillio gwybodaeth newydd.
	TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun gyda delwedd, testun gyda rhif, delwedd gyda rhif.

Uned 8: Darparu Cefnogaeth i Blant ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Crynodeb o'r uned

Mae'r arfer cynhwysiad cyfredol yn golygu y bydd gweithwyr gofal plant yn gweld plant ag anghenion penodol mewn llawer o sefydliadau gofal plant. Mae plant o'r fath yn cyflwyno heriau i'r rheiny sy'n gofalu amdanynt o ran y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, a hefyd yr anogaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan yn y gweithgareddau a'r profiadau sydd ar gael yn y sefydliad gofal plant. Mae hefyd angen cefnogaeth ar eu teuluoedd.

Prif nod yr uned yw i ddysgwyr ennill gwybodaeth a dealltwriaeth i'w galluogi i gefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig.

Yn y lle cyntaf, mae'r uned yn galluogi'r dysgwyr i ddod i ddeall sut i gefnogi plentyn ag anghenion penodol drwy ddarganfod gwybodaeth berthnasol am y plentyn, bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer sy'n effeithio ar blentyn o'r fath, a dysgu sut i ryngweithio a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r plentyn. Yna, bydd y dysgwr yn gallu adeiladu ar y ddealltwriaeth hon a dechrau deall sut i helpu'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau, gan sicrhau diogelwch bob amser.

Mae'r uned yn galluogi'r dysgwr i ddod i ddeall sut i gefnogi'r plentyn a theulu'r plentyn yn ôl gweithdrefnau'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys helpu aelodau'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau, rhoi adborth i'r teulu, cofnodi cynnydd y plentyn a chael cymorth arbenigol pan fo angen. Mae hefyd yn cynnwys cysyniadau partneriaeth, integreiddio a chynhwysiad.

Nod yr uned yw cyfrannu at y wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol ar gyfer *GDDP 209: Cefnogi Plentyn ag Anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig* Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Ei nod yw cwmpasu pob elfen *GDDP 204: Defnyddio Cefnogaeth i Ddatblygu eich Arfer eich Hun mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant* yn ogystal ag adrannau perthnasol *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Ceir cyfleoedd yma i archwilio materion y cwricwlwm ehangach, yn enwedig materion amgylcheddol, moesol, moesegol, ysbrydol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfle cyfartal.

Canlyniadau dysgu

Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall sut i gefnogi plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig
- 2 Deall sut i helpu'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau
- 3 Deall sut i gefnogi'r plentyn a'r teulu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Cynnwys yr uned

1 Deall sut i gefnogi plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig

Anghenion y plentyn unigol: ee Syndrom Down, anhwylder y sbectwm awtistig, nam ar y synhwyrau, dyslecsia, cyflyrau meddygol

Gwybodaeth ac anghenion gofal: manylion am anableddau neu anghenion addysgol arbennig penodol; cael gwybodaeth am anghenion gofal a chyfathrebu unigolyn gan gydweithwyr; dilyn cynllun unigol plentyn; cyfeirio pryderon ynghylch plentyn yn ôl gweithdrefnau; cael cyngor a chefnogaeth i oresgyn anawsterau cyfathrebu

Rhyngweithio: cyfathrebu'n effeithiol; geiriol, di-eiriau; canmol a gwobrwyo ymdrechion a chyflawniadau plentyn; sensitifrwydd i oedran, anghenion a gallu plentyn; disgwyliadau realistig; peidio â labelu plant; cyfathrebu arall drwy ddefnyddio'r holl synhwyrau

Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer: cyfreithiau a chodau ymarfer sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer plant anabl a'r rheiny ag anghenion addysgol arbennig, ee Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001; yn y wlad gartref; pwysigrwydd dilyn y rhain

Grwpiau oedran: 0–3 oed; 3–7 oed; 7–12 oed; 12–16 oed

2 Deall sut i helpu'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau

Dulliau: arsylwi'n sensitif i nodi unrhyw rwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau; cynnig dewisiadau eraill os oes angen; addasu gweithgareddau, profiadau, yr amgylchedd, ee dodrefn, mynediad i gyfarpar, drwy ymgynghori ag eraill er mwyn galluogi'r plentyn i gymryd rhan; defnyddio unrhyw gymhorthion a chyfarpar arbenigol yn ddiogel os oes angen; annog ymddygiad cadarnhaol

3 Deall sut i gefnogi'r plentyn a'r teulu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

Partneriaeth: pwysigrwydd gwybodaeth rhieni a'r teulu am y plentyn; effaith cael plentyn ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig ar deulu; integreiddiad a chynhwysiad yn y sefydliad lleoli a'r gymuned; cynllunio ar gyfer gofynion unigol pob plentyn gyda chydweithwyr a rhieni

Cefnogaeth: helpu aelodau'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau; adborth i'r plentyn ac oedolion eraill ar gynnydd y plentyn; cofnodi cynnydd plentyn yn unol â gweithdrefnau; cael cymorth gan eraill pan fydd angen gwybodaeth a chefnogaeth; cefnogaeth a gwybodaeth arbenigol leol a chenedlaethol i blant a theuluoedd

Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos ei fod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
LL1 nodi ystod o anableddau ac anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar blant	T1 egluro sut y gellir cefnogi plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig	RH1 gwerthuso ffyrdd o helpu plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau
LL2 nodi deddfwriaeth gyfredol a chodau ymarfer perthnasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth i blant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig	T2 egluro sut y gellir helpu plentyn gydag anabledd neu angen addysgol arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau	RH2 gwerthuso ffyrdd o gefnogi teulu plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig.
LL3 amlinellu ffyrdd o helpu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau	T3 egluro'r hyn sydd angen ei ystyried wrth ryngweithio gyda phlentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig	
LL4 nodi ffyrdd o ryngweithio'n effeithiol gyda phlant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig	T4 egluro'r hyn a olygir gan bartneriaeth gyda rhieni.	

Meini prawf graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a thelyngdod, bod y dysgwr yn gallu:
<p>LL5 disgrifio'r effaith y gallai plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig ei chael ar deulu</p> <p>LL6 amlinellu ffyrdd y gellir cefnogi'r plentyn a'r teulu.</p>		

Mae arweiniad i gefnogi asesu'r uned hon ar gael ar dudalen 74.

Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

Cyflwyno

Bydd angen mewnbwn gan athro/athrawes/tiwtor ac ymchwil gan ddysgwyr ar yr uned hon, ond bydd angen ei chefnogi gyda siaradwyr allanol, ymweliadau a lleoliadau gwaith.

Argymhellir yn gryf bod dysgwyr sy'n ymgymryd â'r uned hon yn cael mynediad i sefydliad gofal plant lle mae yno o leiaf un plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig.

Bydd angen i ddysgwyr gael gwybodaeth am y mathau gwahanol o anableddau ac anghenion addysgol arbennig sy'n hysbys ar hyn o bryd. Gellir cyflwyno hyn drwy fewnbwn tiwtor ac ymchwil dysgwyr, a'i gefnogi gyda thrafodaeth. Mae hefyd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol bod angen iddynt gael gwybodaeth bellach am blentyn penodol gan gydweithwyr yn eu lleoliad gwaith, er mwyn iddynt wybod cynllun unigol y plentyn a'i ddilyn. Mae hefyd rhaid iddynt ddysgu y dylid cyfeirio pryderon ynghylch plentyn a chael cyngor a chefnogaeth i oresgyn anawsterau cyfathrebu, yn ôl gweithdrefnau'r sefydliad.

Mae hefyd angen i ddysgwyr wybod sut i ryngweithio gyda phlant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. Unwaith eto, byddai rhywfaint o fewnbwn athro/athrawes/tiwtor yn ddefnyddiol yma, ond fe argymhellir gwahodd siaradwr gwadd sy'n gyfarwydd â gweithio gyda phlant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig i siarad â'r dysgwyr. Mae angen i'r dysgwyr eu hunain arsylwi eraill yn ofalus pan fyddant yn eu lleoliad gwaith neu'n ymweld ag un.

Yn dilyn hyn, mae angen i ddysgwyr ddeall sut i helpu'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau. Gellir cyflwyno rhywfaint o hyn yn y dosbarth, ond unwaith eto, argymhellir gwahodd siaradwr gwadd priodol ynghyd ag arsylwi ar ran y dysgwr yn ystod eu lleoliad gwaith neu mewn sefydliad gofal plant arall. Mae annog ymddygiad positif ymysg plant yn bwysig iawn yma, yn ogystal ag arsylwi sensitif i nodi unrhyw rwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnig dewisiadau eraill neu addasiadau. Mae angen i ddysgwyr ddeall bod yn rhaid cyflawni hyn o fewn cyd-destun ymgynghori ag eraill er mwyn galluogi'r plentyn i gymryd rhan a defnyddio unrhyw gymhorthion neu gyfarpar arbenigol yn ddiogel.

Yna, mae angen i ddysgwyr ddeall sut i gefnogi'r plentyn a'i deulu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad gofal plant. Gallai siaradwr allanol gwmpasu'r rhan hon o'r uned hefyd, fel y nodwyd uchod, er mwyn cefnogi mewnbwn yr athro/athrawes/tiwtor. Cysyniad pwysig i ddysgwyr ei ddeall yw partneriaeth gyda rhieni, lle gosodir gwerth ar wybodaeth y rhieni a'r teulu o'r plentyn, gyda gweithwyr gofal plant yn gweithio gyda theuluoedd ac yn adeiladu ar eu gwybodaeth. Mae hefyd angen i ddysgwyr ddeall cysyniad cynhwysiad mewn perthynas â phlant ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig, gyda'r angen am integreiddiad neu gynhwysiad yn y sefydliad lleoli yn ogystal â'r gymuned. Dylent fod yn gallu gwerthfawrogi'r effaith y mae cael plentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig yn ei chael ar deulu ac o fewn iddo, a'r angen am gynllunio ar gyfer gofynion pob plentyn unigol gyda chydweithwyr a rhieni.

Mae hefyd angen i ddysgwyr wybod sut i gefnogi aelodau'r teulu, er enghraifft, drwy eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhoi adborth iddynt ar gynnydd y plentyn. Mae angen i'r dulliau cyflwyno amrywio, gyda mewnbwn gan weithwyr gofal plant neu hyd yn oed gan rieni â phlentyn ag anabledd neu angen addysgol arbennig.

Asesu

Er y dylai llawer o'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon fod ar ffurf darnau ysgrifenedig, mae llawer o'r asesu'n ymwneud â sefydliadau gofal plant, ac felly, mae angen iddo fod yn ymarferol. Gellir defnyddio gweithgareddau ac arsylwadau yn y lleoliad profiad gwaith fel sail ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer agweddau gwahanol yr uned.

Gellir defnyddio tri aseiniad fel sail asesu'r uned hon.

Gallai aseiniad cychwynnol ofyn i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth ynghylch ystod yr anabledau a'r anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar blant. Mae angen i ddysgwyr nodi enghreifftiau o anabledau ac anghenion addysgol arbennig ar gyfer LL1, ac ar gyfer T1 mae angen egluro sut y gellir cefnogi plentyn ag anabled neu angen addysgol arbennig. Ar gyfer LL2, mae angen i ddysgwyr ddangos eu bod wedi ymchwilio ac yn deall deddfwriaeth gyfredol a chodau ymarfer perthnasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth i blant ag anabledau neu anghenion addysgol arbennig. Ar gyfer LL3, mae angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn deall ffyrdd o helpu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau, ac ehangu ar hyn ar gyfer T2 a RH1. Ar gyfer yr aseiniad cyntaf hwn, gellir cyflwyno tystiolaeth mewn amrywiaeth o fformatau. Er enghraifft, gallai cyflwyniadau PowerPoint ddarparu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer disgrifio ystod o anabledau ac anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar blant. Gellir annog dysgwyr hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan oruchwyliath gyda phlant ag anabledau neu anghenion addysgol arbennig yn eu lleoliad gwaith, a defnyddio'r gweithgareddau fel sail ar gyfer cyflawni'r meini prawf.

Gellir defnyddio ail aseiniad i asesu LL4, ac o bosib T3, yn seiliedig ar y thema rhyngweithio gyda phlant ag anabledau neu anghenion addysgol arbennig. Unwaith eto, dylai dysgwyr ddefnyddio'u profiadau lleoliad gwaith fel tystiolaeth ddisgrifiadol.

Gallai'r trydydd aseiniad asesu LL5 a LL6, ac o bosib T4 a RH2, yn seiliedig ar deulu plentyn ag anabled neu angen addysgol arbennig, a sut gellir cefnogi aelodau'r teulu hwnnw.

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned yn gysylltiedig â *GDDP 209: Cefnogi Plentyn ag Anabledau neu Anghenion Addysgol Arbennig* Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Ei nod yw cynnwys pob elfen o *GDDP 204: Defnyddio Cefnogaeth i Ddatblygu eich Arfer eich Hun mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant* yn ogystal ag adrannau perthnasol *GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant*.

Mae'r uned hon hefyd yn gysylltiedig â Materion Genedigaethol i Dair Oed ym mhob un o'r pedair agwedd.

Adnoddau hanfodol

- Person â chymwysterau priodol i gyflwyno'r uned.
- Mynediad i sefydliad gofal plant y mae yno o leiaf un plentyn ag anabled neu angen addysgol arbennig.

Darllen amlinellol i ddysgwyr

Deunyddiau sy'n dangos lefel y dysgu sy'n ofynnol ac sy'n arbennig o berthnasol:

Llyfrau

Lang R — *Obsessive Compulsive Disorders* (Nasen/David Fulton, 2005) ISBN 1843123665

McIntyre C — *Play for Children with Special Needs* (David Fulton, 2002) ISBN 1853469351

Mortimer H — *Sensory Difficulties* (Scholastic, 2002) ISBN 089053565X

Sgiliau allweddol

Nid yw cyflawni sgiliau allweddol yn ofyniad yn y cymhwyster hwn ond fe'i hanogir. Rhoddir awgrymiadau o gyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth sgiliau allweddol Lefel 2 yma. Dylai tiwtoriaid wirio bod dysgwyr wedi cynhyrchu'r holl dystiolaeth ofynnol erbyn rhan B o'r manylbau sgiliau allweddol wrth asesu'r dystiolaeth hon. Hwyrach y bydd angen i ddysgwyr ddatblygu tystiolaeth ychwanegol mewn meysydd eraill i fodloni'n llawn ofynion y manylbau sgiliau allweddol.

Cyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • amlinellu ffyrdd o helpu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau • nodi ystod o anableddau ac anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar blant. 	C2.1a Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.
	C2.1b Traethu am o leiaf bedair munud.
	C2.2 Darllen a chrynhai gwybodaeth o ddwy ddogfen o leiaf yn ymwneud â'r un pwnc. Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
	C2.3 Ysgrifennu dau fath gwahanol o ddogfen, gyda phob un yn rhoi gwybodaeth wahanol. Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 500 gair.
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> • nodi ystod o anableddau ac anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar blant. • nodi deddfwriaeth gyfredol a chodau ymarfer perthnasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth i blant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. 	TGCh2.1 Chwilio am a dethol gwybodaeth i fodloni eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf chwilio lluosog mewn un achos o leiaf.
	TGCh2.2 Defnyddio a datblygu'r wybodaeth i gydfynd â'r dasg a deillio gwybodaeth newydd.
	TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun gyda delwedd, testun gyda rhif, delwedd gyda rhif.

Gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> nodi ffyrdd o ryngweithio'n effeithiol â phlant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. 	<p>GDP2.1 Helpu gosod targedau gyda pherson priodol a chynllunio sut i'w cyrraedd.</p> <p>GDP2.2 Cymryd cyfrifoldeb am rai penderfyniadau ynghylch eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella'ch perfformiad.</p> <p>GDP2.3 Adolygu cynnydd gyda pherson priodol a darparu tystiolaeth o'ch cyflawniadau.</p>
Gweithio gydag eraill Lefel 2	
Pan fydd dysgwyr yn:	Dylent fod yn gallu datblygu'r dystiolaeth sgiliau allweddol ganlynol:
<ul style="list-style-type: none"> amlinellu ffyrdd o helpu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau. 	<p>GE2.1 Cynllunio gwaith gydag eraill.</p> <p>GE2.2 Gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd.</p> <p>GE2.3 Adolygu eich cyfraniad a chytuno ar ffyrdd o wella gweithio gydag eraill.</p>

Asesu a graddio

Diben asesu yw sicrhau bod cynnwys pob uned wedi'i ddysgu'n effeithiol.

Dylai aseiniadau sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl feini prawf yn yr uned fel y nodir yn y *grid graddio* ar gyfer pob uned. Fe'ch cynghorir i nodi meini prawf yn glir ar bob aseiniad i roi ffocws i ddysgwyr (er mwyn eglurder ac i helpu i sicrhau bod adborth yn benodol i'r meini prawf) ac i gynorthwyo gyda phrosesau gwirio mewnol a safoni. Dylai tasgau a gweithgareddau alluogi dysgwyr i gynhyrchu tystiolaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r meini prawf a nodwyd.

Dylai aseiniadau a lunnir gan ganolfannau fod yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn addas at y diben, gan adeiladu ar gymhwyso'r meini prawf graddio. Dylai canolfannau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys astudiaethau achos, aseiniadau ac asesiadau wedi'u seilio ar waith, ynghyd â phrosiectau, arsylwi perfformiad ac asesiadau â chyfyngiadau amser. Anogir canolfannau i roi pwyslais ar gymhwyso'r meini prawf graddio'n ymarferol, gan roi senario realistig i ddysgwyr ei mabwysiadu, a chan wneud y defnydd mwyaf posibl o weithgareddau ymarferol a phrofiad gwaith. Mae creu aseiniadau sy'n addas at y diben yn hanfodol i gyflawniad dysgwyr ac ni ellir gorbwysleisio'u pwysigrwydd.

Wrth ddarllen y *Gridiau graddio* a llunio offerynnau asesu, dylai canolfannau nodi y bydd gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth ansoddol ei natur os yw dysgwyr i gyflawni gradd teilyngdod/rhagoriaeth. Anogir canolfannau i edrych ar bob maen prawf asesu yn y *Grid graddio* i nodi pynciau cyffredin o fewn unedau ac i asesu gwaith dysgwyr yn unol â'r lefel y maent wedi'i chyflawni yn unol â'r meini prawf graddio.

Datblygir y meini prawf graddio mewn perthynas â pharthau graddio sy'n darparu ar gyfer asesu canlyniadau dysgu'r uned. Mae pedwar parth graddio sy'n sylfaen i'r meini prawf graddio.

- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth.
- Datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol.
- Datblygiad personol ar gyfer rolau galwedigaethol.
- Cymhwyso sgiliau generig ac allweddol.

Mae natur ansoddol meini prawf y graddau teilyngdod a rhagoriaeth uchel wedi'i seilio ar nodweddion amlinellol sy'n ofynnol yn y dystiolaeth asesu er mwyn cyflawni graddau uwch. Dylid cyfeirio at *Atodiad B*.

Defnyddir graddfa raddio o lwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth uchel i bob uned.

Ym mhob un o gymwysterau Cyntaf BTEC Edexcel caiff pob uned ei hasesu'n fewnol.

Cyfeirir at y meini prawf yn yr holl asesiadau ar gyfer cymwysterau Cyntaf BTEC, ar sail cyflawni canlyniadau penodol. Mae meini prawf penodol ar gyfer graddio ym mhob uned. Gellir dyfarnu gradd uned grynodebol ar lefel llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth:

- i gyflawni 'llwyddo' rhaid i ddysgwr fod wedi bodloni'r **holl** feini prawf llwyddo
- i gyflawni 'teilyngdod' rhaid i ddysgwr fod wedi bodloni'r **holl** feini prawf teilyngdod yn ogystal
- i gyflawni 'rhagoriaeth' rhaid i ddysgwr fod wedi bodloni'r **holl** feini prawf rhagoriaeth yn ogystal.

Dyfernir gradd 'ddi-ddosbarth' i ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned ond nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf llwyddo.

Sicrhau ansawdd

Mae manylebau cymwysterau Edexcel yn nodi'n glir y safon i'w chyflawni gan bob dysgwr er mwyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu. Trafodir hyn yn y datganiad canlyniadau a'r meini prawf graddio ym mhob uned. Rhoddir arweiniad pellach ar gyflwyno ac asesu yn adran *Arweiniad hanfodol i diwtoriaid* pob uned. Nod yr adran hon yw darparu arweiniad ac eglurhad ychwanegol ar yr uned i gefnogi tiwtoriaid, cyflwynwyr ac aseswyr ac i ddarparu ar gyfer cydlyniaeth dealltwriaeth a chysondeb cyflwyno ac asesu.

Mae Edexcel yn gweithredu proses sicrhau ansawdd sydd wedi'i llunio i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal gan bob gwiriwr mewnol a gwiriwr allanol. Mae'n cyflawni hyn drwy'r gweithgareddau canlynol.

Cymeradwyo

Caniateir 'cymeradwyaeth gyflym' i ganolfannau ar gyfer rhaglen newydd lle bydd gan y ganolfan gymeradwyaeth eisoes ar gyfer rhaglen sy'n cael ei disodli gan y rhaglen newydd. Bydd angen i ganolfannau sy'n dymuno cynnig maes galwedigaethol am y tro cyntaf gyflwyno cais am gymeradwyaeth i gynnig y rhaglen.

Bydd angen i ganolfannau nad ydynt wedi cynnig cymwysterau BTEC o'r blaen wneud cais am, a chael caniatâd i gymeradwyo'r ganolfan cyn y gallant gyflwyno cais am gymeradwyaeth i gynnig y rhaglen.

Pan fydd canolfan yn gwneud cais am gymeradwyaeth i gynnig cymhwyster BTEC bydd gofyn iddi gytuno i gytundeb cymeradwyo.

Mae'r cytundeb cymeradwyo yn ymrwymiad ffurfiol gan bennaeth neu brifathro canolfan i fodloni holl ofynion y fanyleb a'r codau neu'r rheoliadau cysylltiedig. Gellir cyflwyno cosb neu gostau os na fydd canolfannau'n cydymffurfio â'r cytundeb. Yn y pen draw, gallai hyn arwain at ddiarddel tystysgrifo neu dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl.

Asesu risg

Mae gan Edexcel broses gymeradwyo sy'n creu proffil ansawdd ar gyfer rhaglen pob cymhwyster ym mhob canolfan ac ar gyfer y ganolfan gyfan. Mae'r proffil hwn yn cyfrannu at bennu natur y gweithgarwch gwirio allanol ar gyfer pob rhaglen ac fe'i defnyddir hefyd fel man cychwyn ar gyfer mesurau rheoli ansawdd eraill gan Edexcel.

Gwirio mewnol

Mae gofyn i ganolfannau fod â phrosesau yn eu lle i adolygu penderfyniadau pob asesydd i sicrhau eu bod yn dehongli ac yn cymhwyso'r safonau a nodir yn y manylebau'n gywir. Mae'r system a ddefnyddir i wneud hyn yn fater i ganolfannau unigol ac mae Edexcel yn cefnogi'n llawn defnyddio systemau sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan ei hun lle bydd hyn yn sicrhau safoni mewnol trylwyr.

Dylai canolfannau gyfeirio at Lawlyfr BTEC Lefel 2/3 y FfCC (gan gynnwys y Cyrsiau Byr ar Lefelau 1–3) (a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol). Gellir gweld yr wybodaeth hon wedi'i diweddarau hefyd ar wefan Edexcel/Gwasanaethau i Ganolfannau/Colegau AB ac Ysgolion.

Gwirio allanol

Bydd Edexcel yn samplu penderfyniadau aseswyr gan ddefnyddio gwirwyr allanol sy'n arbenigo yn y sectorau. Ar gyfer cymwysterau Cyntaf BTEC bydd y broses hon yn dilyn y protocol Samplu Safonau Cenedlaethol (SSC).

Rhaid i waith y dysgwr fod wedi ei asesu'n fewnol. Yn ogystal, rhaid i o leiaf 50 y cant o waith a gyflwynir fod wedi'i wirio'n fewnol.

Dylai canolfannau gyfeirio at Lawlyfr BTEC Lefel 2/3 y FfCC (gan gynnwys y Cyrsiau Byr ar Lefelau 1–3) (a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol). Gellir gweld yr wybodaeth hon wedi'i diweddarau hefyd ar wefan Edexcel/Gwasanaethau i Ganolfannau/Colegau AB ac Ysgolion.

Cyfrifo gradd y cymhwyster

Dyfarnu gradd i gymhwysster

Caiff gradd y cymhwyster ei chyfrifo drwy agregu pwyntiau a enillwyd drwy gyflawni unedau unigol yn llwyddiannus. Bydd dysgwyr yn cyflawni gradd llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth ar sail cyrraedd isafswm nifer a nodir o bwyntiau ar gyfer gradd pob uned. Bydd nifer y pwyntiau sydd ar gael yn dibynnu ar y radd a gyflawnir ar gyfer yr uned a maint yr uned fel y pennir gan yr oriau dysgu dan arweiniad a nodwyd.

Ar gyfer cyfrifo gradd cymhwyster ar gyfer Tystysgrif Gyntaf BTEC a Diploma Cyntaf BTEC, rhaid i ddysgwr:

- gwblhau'r holl unedau a bennir
- cyflawni isafswm sgôr o 18 pwynt ar gyfer Tystysgrif Gyntaf a 36 pwynt ar gyfer Diploma Cyntaf
- cyflawni gradd llwyddo ym mhob uned a bennir ar gyfer Tystysgrif Gyntaf a chyflawni gradd llwyddo mewn unedau â chyfanswm cyfunol o 300 awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer Diploma Cyntaf.

Ar gyfer cyfrifo gradd cymhwyster ar gyfer y Diploma Cyntaf BTEC hwn, rhaid i ddysgwr hefyd lwyddo yn:

- Uned 1: Deall Datblygiad Plant
- Uned 3: Cyfathrebu gyda Phlant ac Oedolion
- Uned 5: Datblygiad Proffesiynol, Rolau a Chyfrifoldebau mewn Gofal Plant.

Pwyntiau sydd ar gael

Maint yr uned (DDA)	Gradd llwyddo	Gradd teilyngdod	Gradd rhagoriaeth
10	1	2	3
30	3	6	9
60	6	12	18
90	9	18	27
120	12	24	36

Gradd cymhwyster

Cymhwyster	Gradd llwyddo	Gradd teilyngdod	Gradd rhagoriaeth	Rhagoriaeth *
Tystysgrif Gyntaf BTEC (54 ar y mwyaf)	18–29	30–41	42–53	54
Diploma Cyntaf BTEC (108 ar y mwyaf)	36–59	60–83	84–95	96–108

Cyferthedd graddau TGAU

Nifer y pwyntiau	Gradd tystysgrif gyntaf BTEC		Cyferthedd graddau TGAU
18–29	Llwyddo	LL	C C
30–41	Teilyngdod	T	B B
42–48	Rhagoriaeth	RH	A A
54	Rhagoriaeth*	RH*	A* A*

Diploma Cyntaf BTEC a chyferthedd graddau TGAU

Nifer y pwyntiau	Gradd diploma BTEC		Cyferthedd graddau TGAU
36–59	Llwyddo	LL	C C C C
60–83	Teilyngdod	T T	B B B B
84–95	Rhagoriaeth	RH RH	A A A A
96–108	Rhagoriaeth*	RH* RH*	A* A* A* A*

Cynllun a chyflwyno rhaglenni

Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys unedau craidd (sy'n orfodol) ac unedau arbenigol. Mae unedau arbenigol wedi'u cynllunio i ddarparu ffocws penodol i'r cymhwyster. Mae cyfuniadau gofynnol o unedau arbenigol wedi'u nodi'n glir mewn perthynas â phob cymhwyster yn y strwythurau cymwysterau diffiniedig a ddarperir yn y ddogfen hon.

Mewn cymwysterau Cyntaf BTEC mae pob uned yn cynnwys 30, 60, 90 neu 120 awr o ddysgu dan arweiniad. Diffiniad yr oriau dan arweiniad yw 'mesur tybiannol o sylwedd cymhwyster'. Mae'n cynnwys amcangyfrif o'r amser y gellid ei ddyrannu i addysgu uniongyrchol, cyfarwyddo ac asesu, ynghyd ag amser dysgu strwythuredig arall fel aseiniadau wedi'u cyfarwyddo neu astudio unigol â chymorth. Nid yw'n cynnwys astudio preifat drwy gymhelliant y dysgwr. Cynghorir canolfannau i ystyried y diffiniad hwn wrth gynllunio'r rhaglen astudio yn gysylltiedig â'r fanyleb hon.

Dull cyflwyno

Nid yw Edexcel yn diffinio'r dull astudio ar gyfer cymwysterau Cyntaf BTEC. Mae canolfannau'n rhydd i gynnig y cymwysterau gan ddefnyddio unrhyw ddull cyflwyno sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr. Gall hyn fod drwy addysgu traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth, dysgu agored, dysgu o bell neu gyfuniad o'r rhain. Pa ddull cyflwyno bynnag a ddefnyddir, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad priodol i'r adnoddau a nodir yn y manylebau ac i'r arbenigwyr pwnc sy'n cyflwyno'r unedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster drwy ddysgu agored neu ddysgu o bell.

Mae dysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster yn rhan-amser yn dod â thoreth o brofiad y dylid ei ddefnyddio i'r eithaf gan diwtoriaid ac aseswyr. Dylid annog tystiolaeth asesu ar sail amgylchedd gwaith y dysgwyr. Dylai'r rheiny sy'n cynllunio'r rhaglen geisio cynyddu natur alwedigaethol y cymhwyster Cyntaf BTEC drwy:

- gysylltu â chyflogwyr i sicrhau cwrs sy'n berthnasol i anghenion penodol y dysgwyr
- cyrchu a defnyddio data a dogfennau nad ydynt yn gyfrinachol o weithleoedd dysgwyr
- cynnwys noddi cyflogwyr wrth gyflwyno'r rhaglen a, lle y bo'n briodol, yn yr asesu
- cysylltu â rhaglenni hyfforddiant yn y cwmni/gweithle
- gwneud defnydd llawn o'r amrywiaeth o brofiad gwaith a bywyd a gyflwynir gan ddysgwyr i'r rhaglen.

Adnoddau

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC wedi'u llunio i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth mewn sectorau penodol. Mae angen i adnoddau ffisegol gefnogi cyflwyno'r rhaglen ac asesu'r canlyniadau'n gywir ac felly dylent fod o safon diwydiant fel arfer. Dylai staff sy'n cyflwyno rhaglenni ac yn cynnal yr asesiadau fod yn gwbl gyfarwydd ag arfer a safonau presennol yn yr sector dan sylw. Bydd angen i ganolfannau fodloni unrhyw ofynion adnoddau arbenigol wrth geisio cymeradwyaeth gan Edexcel.

Lle bydd angen adnoddau penodol mae'r rhain wedi'u nodi yn yr unedau unigol o dan yr adran *Adnoddau hanfodol*.

Ymagwedd gyflwyno

Mae'n bwysig i ganolfannau ddatblygu ymagwedd at addysgu a dysgu sy'n cefnogi natur alwedigaethol arbenigol cymwysterau Cyntaf BTEC. Mae manylebau'n cynnwys cydbwysedd rhwng datblygu sgiliau ymarferol a gofynion gwybodaeth, y gall rhai ohonynt fod yn ddamcaniaethol eu natur. Mae angen i diwtoriaid ac aseswyr sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu creu rhwng yr elfennau theori ac arfer a bod y sail wybodaeth yn cael ei chymhwyso i'r sector. Bydd hyn yn golygu datblygu deunyddiau addysgu perthnasol a chyfoes sy'n caniatáu i ddysgwyr gymhwyso eu dysgu i ddigwyddiadau a gweithgarwch gwirioneddol o fewn y sector. Dylid gwneud y defnydd mwyaf posibl o brofiad y dysgwr.

Achredu Dysgu Blaenorol (APL)

Mae Edexcel yn annog canolfannau i gydnabod cyflawniadau a phrofiadau blaenorol dysgwyr drwy APL. Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr dystiolaeth a gynhyrchwyd yn ystod astudio neu gyflogaeth flaenorol neu wrth ymgymryd â gwaith gwirfoddol sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o'r unedau yn y cymhwyster. Dylai aseswyr asesu'r dystiolaeth hon yn erbyn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sydd wedi'u mapio yn y fanyleb. Fel yn achos pob tystiolaeth, dylai aseswyr fod yn fodlon ar wreiddioldeb a chyfoesedd y deunydd wrth ystyried a yw canlyniadau'r uned wedi'u bodloni ai peidio.

Mae arweiniad llawn ar bolisi Edexcel ar APL ar ein gwefan: www.edexcel.org.uk.

Diwallu anghenion lleol

Dylai canolfannau nodi bod y cymwysterau a nodir yn y manylebau hyn wedi'u datblygu drwy ymgynghori â chanolfannau a chyflogwyr, yn arbennig y Cyngor Sgiliau Sector, Sgiliau ar gyfer Gofal a Datblygiad. Mae'r unedau wedi'u cynllunio i ateb anghenion sgiliau'r sector ac mae'r unedau arbenigol yn caniatáu cwmpasu'r ystod gyflogaeth lawn. Dylai canolfannau wneud y defnydd eithaf o'r dewis sydd ar gael iddynt o fewn yr unedau arbenigol yn y manylebau hyn i ddiwallu anghenion dysgwyr, a'r anghenion sgiliau a hyfforddiant lleol a nodwyd gan sefydliadau fel yr Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol a'r Cyngor Dysgu a Sgiliau Lleol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd yr unedau a gynhwysir yn y manylebau hyn yn galluogi canolfannau i ddiwallu angen lleol. Yn y sefyllfa hon caiff canolfannau geisio cymeradwyaeth gan Edexcel i ddefnyddio unedau o fanylebau Diploma Cyntaf BTEC FfCC safonol eraill. Bydd angen i ganolfannau gyfiawnhau'r angen i fewnosod unedau o fanylebau eraill a bydd Edexcel yn sicrhau nad yw ffocws galwedigaethol y cymhwyster wedi'i wanychu. Ni ellir mewnosod unedau ag iddynt aseiniadau a osodir yn allanol i gymwysterau eraill.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau eithriadol lle na fydd yr hyblygrwydd hwn hyd yn oed yn diwallu angen lleol arbennig. Lle digwydd hyn caiff canolfannau geisio caniatâd gan Edexcel i ddatblygu uned gyda ni i ddiwallu'r angen hwn. Bydd yr achosion lle caniateir hyn yn brin iawn. Bydd ar ganolfannau angen tystiolaeth gref o'r angen lleol a'r rhesymau pam bod yr unedau safonol presennol yn amhriodol. Bydd angen i Edexcel gyflwyno'r unedau hyn i QCA eu hachredu.

Cyfyngiadau wrth amrywio o fanylebau safonol

Mae'r hyblygrwydd i fewnosod unedau safonol o fanylebau Diploma Cyntaf BTEC eraill a/neu ddatblygu unedau unigryw yn **gyfyngedig i un uned mewn cymhwyster Diploma Cyntaf BTEC. Nid yw'r hyblygrwydd hwn ar gael yn y Dystysgrif Gyntaf BTEC. Ni ellir defnyddio'r unedau hyn ar draul unedau craidd mewn unrhyw gymhwyster.**

Rhoddir arweiniad manylach ar gyflwyno ac asesu ym mhob uned.

Mynediad a recriwtio

Mae polisi Edexcel mewn perthynas â mynediad i'w gymwysterau fel a ganlyn:

- dylai'r cymwysterau fod ar gael i bawb sy'n abl i gyrraedd y safonau gofynnol
- dylai'r cymwysterau fod yn rhydd o unrhyw rwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad a dilyniant
- dylai fod cyfle cyfartal i bawb sy'n dymuno cael mynediad i'r cymwysterau.

Mae gofyn bod canolfannau'n recriwtio dysgwyr i gymwysterau BTEC mewn modd gonest. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybodaeth a chynghor priodol am y cymwysterau ac y bydd y cymhwyster yn diwallu eu hanghenion. Dylai canolfannau gymryd camau priodol i asesu potensial pob ymgeisydd a llunio barn broffesiynol ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen astudio a chyflawni'r cymhwyster yn llwyddiannus. Bydd angen i'r asesiad hwn ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i'r dysgwr o fewn y ganolfan yn ystod ei raglen astudio ac unrhyw gefnogaeth benodol y gallai fod ei hangen i ganiatáu i'r dysgwr gael ei asesu ar gyfer y cymhwyster. Dylai canolfannau hefyd ystyried polisi Edexcel ar ddysgwyr â gofynion arbennig.

Bydd angen i ganolfannau adolygu proffil y cymwysterau a/neu'r profiad sydd gan ymgeiswyr, gan ystyried a yw'r proffil hwn yn dangos gallu i symud ymlaen i gymhwyster Lefel 2. Yn achos dysgwyr sydd wedi bod yn gysylltiedig ag addysg yn ddiweddar, mae'r proffil yn debygol o gynnwys un o'r canlynol:

- safon o lythrennedd a rhifedd wedi'i chefnogi gan addysg gyffredinol sy'n gyfwerth â phedwar TGAU graddau D–G
- profiad gwaith cysylltiedig
- cymwysterau Lefel 1 neu 2 cysylltiedig eraill.

Gall fod gan ddysgwyr mwy aeddfed broffil cyflawniad mwy amrywiol sy'n debygol o gynnwys profiad o gyflogaeth â thâl a/neu ddi-dâl.

Cyfyngiadau ar fynediad dysgwyr

Caiff Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant a'r Diploma Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant eu hachredu ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar gael i ddysgwyr 14 oed a hŷn. Mae Diploma Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar gael i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r cymwysterau'n ymddangos ar restrau cyllido DfES, Adran 96 ac Adran 97.

Yn ogystal, mae mwyafrif y cymwysterau Gyntaf BTEC ar gael i ddysgwyr 14–16 oed i ehangu eu cwricwlwm a'u helpu i gael profiad o sgiliau galwedigaethol a fydd yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith.

Mewn sectorau penodol gallai'r cyfyngiadau ar fynediad dysgwyr ymwneud ag unrhyw rwystrau corfforol neu gyfreithiol, er enghraifft bydd rhaid i bobl sy'n gweithio gyda phlant gael eu gwirio gan yr heddlu.

Trefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig

Mae polisi Edexcel ar drefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig ar gyfer cymwysterau BTEC ac NVQ Edexcel yn ceisio gwella mynediad i'r cymwysterau i ddysgwyr ag anableddau ac anawsterau eraill (fel y diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a diwygiadau i'r Ddeddf) heb gyfaddawdu'r dasg o asesu sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwyster.

Rhoddir manylion pellach yn y polisi 'Trefniadau Mynediad ac Ystyriaethau Arbennig ar gyfer Cymwysterau BTEC ac NVQ Edexcel', sydd ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk). Mae'r polisi hwn yn disodli polisi blaenorol Edexcel (Asesu Cymwysterau Cyswllt Galwedigaethol (VRQ): Rheoliadau ac Arweiniad yn Ymwneud â Dysgwyr â Gofynion Arbennig, 2002) mewn perthynas â dysgwyr â gofynion arbennig.

Fframwaith Cymwysterau BTEC Edexcel ar gyfer y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae cyfleoedd dilyniant o fewn y fframwaith ar gael yn fertigol, yn groeslinol ac yn llorweddol.

Lefel FfCC	Cymwysterau Cyffredinol	Cyrsiâu VRQ BTEC Llawn	Cyrsiâu Byr BTEC	NVQ/Galwedigaethol
4		Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma mewn Arfer Uwch mewn Gwaith gyda Phlant a Theuluoedd	Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol mewn Chwarae Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc Sâl	NVQ mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant NVQ mewn Gwaith Chwarae
3	TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma Cenedlaethol yn y Blynyddoedd Cynnar	Tystysgrif mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (tystysgrif dechnegol) Tystysgrif ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu	NVQ mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant NVQ mewn Gwaith Chwarae NVQ ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu
2	TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Tystysgrif Gyntaf a Diploma Gyntaf mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Tystysgrif mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (tystysgrif dechnegol) Tystysgrif ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Cymorth Gyntaf Peditrig	NVQ mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant NVQ mewn Gwaith Chwarae NVQ ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu
1		Tystysgrif a Diploma Rhagarweiniol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol		
Mynediad				

Gwybodaeth bellach

I gael gwybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800 (gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddi) neu ewch i'n gwefan yn www.edexcel.org.uk.

Cyhoeddiadau defnyddiol

Gellir cael copïau pellach o'r ddogfen hon a chyhoeddiadau cysylltiedig o:

Edexcel Publications
Adamsway
Mansfield
Nottinghamshire
NG18 4FN

Ffôn: 01623 467 467
Ffacs: 01623 450 481
Ebost: publications@linneydirect.com

Mae gwybodaeth a chyhoeddiadau cysylltiedig yn cynnwys:

- *Accreditation of Prior Learning* ar gael ar ein gwefan: www.edexcel.org.uk
- *Guidance for Centres Offering Edexcel/BTEC NQF Accredited Programmes* — (Edexcel, a ddsberthir i ganolfannau'n flynyddol)
- cyhoeddiadau sgiliau allweddol — manylebau, deunyddiau cefnogi tiwtoriaid a phapurau cwestiynau
- *The Statutory Regulation of External Qualifications in England, Wales and Northern Ireland* — (QCA, 2004)
- catalog cyhoeddiadau presennol Edexcel a chatalog diweddarau.

Mae cyhoeddiadau Edexcel mewn perthynas â'r System Sicrhau Ansawdd a gwirio rhaglenni â chyswllt galwedigaethol yn fewnol ac yn allanol ar gael ar wefan Edexcel ac yng nghatalog cyhoeddiadau Edexcel.

DS: Codir tâl am y rhan fwyaf o'n cyhoeddiadau. Codir tâl hefyd am bostio a lapio. Dylech wirio'r gost wrth archebu.

Sut mae cyrraedd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant
Albion Court
5 Albion Place
Leeds
LS1 6JL

Ffôn: 0113 244 6311

Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant

Mae Edexcel yn cefnogi cwsmeriaid yn y DU a chwsmeriaid rhyngwladol gyda hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chymwysterau BTEC. Mae'r gefnogaeth hon ar gael drwy ystod o opsiynau hyfforddi a gynigir yn y llawlyfr hyfforddiant a gyhoeddir gennym neu drwy hyfforddiant wedi'i deilwra yn eich canolfan.

Mae'r gefnogaeth a gynigiwn yn canolbwyntio ar ystod o faterion gan gynnwys:

- cynllunio i gyflwyno rhaglen newydd
- cynllunio ar gyfer asesu a graddio
- datblygu aseiniadau effeithiol
- adeiladu eich tîm a'ch sgiliau gweithio fel tîm
- datblygu ymagweddau dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr
- cynnwys sgiliau allweddol yn eich rhaglen
- cynnwys systemau sicrhau ansawdd effeithiol ac effeithlon.

Gellir gweld y rhaglen hyfforddiant genedlaethol a gynigiwn ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk). Gallwch ofyn am hyfforddiant wedi'i deilwra drwy ein gwefan neu drwy gysylltu ag un o'n hymgynghorwyr yn y tîm Datblygiad Proffesiynol a Hyfforddiant drwy'r Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y rhif ffôn 0870 240 9800 (gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddi) i drafod eich anghenion hyfforddiant.

Mae'r hyfforddiant a ddarparwn:

- yn weithgar — datblygir a chymhwysir syniadau
- wedi'i lunio i fod yn gefnogol a sbarduno'r meddwl
- yn adeiladu ar arfer gorau.

Atodiad A

Codau QCA

Adwaenir cod y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) QCA fel Rhif Achredu Cymhwyster (QAN). Dyma'r cod sy'n cael ei gynnwys ar Restrau Cyllido DfES — Adran 96 ac Adran 97 a dylid ei ddefnyddio at holl ddibenion cyllido cymwysterau. Bydd cod uned FfCC QCA ar gyfer pob uned o fewn cymhwyster hefyd.

Bydd codau cymhwyster ac uned QCA yn ymddangos ar ddogfennaeth dystysgrifo derfynol y dysgwr.

Y rhifau QAN ar gyfer y cymwysterau yn y cyhoeddiad hwn yw:

100/6243/9 Tystysgrif Gyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

100/6244/0 Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Bydd teitlau'r cymwysterau hyn yn ymddangos ar dystysgrifau'r dysgwyr.

Mae angen hysbysu dysgwyr am hyn pan gânt eu recriwtio gan y ganolfan a'u cofrestru gan Edexcel. Cyhyd â bod hyn yn digwydd, gall canolfannau ddisgrifio'r rhaglen astudio sy'n arwain at ddyfarnu'r cymhwyster mewn ffyrdd gwahanol i gyd-fynd â'r cyfrwng a'r gynulleidfa darged.

Atodiad B

Parthau graddio

Parth graddio 1	Nodweddion amlinellol — tellyngdod	Nodweddion amlinellol — rhagoriaeth
<p>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dangos dyfnder gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd a roddir (ee esbonio pam, llunio barn ar sail dadansoddi). Cymhwyso a/neu ddedol cysyniadau perthnasol. Cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau gwahanol. Cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau anarferol (hy detholir gan aseswyr). Tynnu cymariaethau. Dangos perthnasau rhwng meini prawf perfformiad. 	<ul style="list-style-type: none"> Cymbathu gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws meini prawf rheoli perfformiad. Gwerthuso cysyniadau/syniadau/gweithredoedd. Dadansoddi/ymchwilio a gwneud argymhellion. Barnu goblygiadau cymhwyso gwybodaeth/dealltwriaeth. Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i weithgareddau/cyd-destunau cymhleth.
<p>Parth graddio 2</p> <p>Datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol</p>	<p>Nodweddion amlinellol — tellyngdod</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio technegau/prosesau/sgiliau uwch yn llwyddiannus. Gweithredu o dan oruchwyliath gyfyngedig/dangos annibyniaeth (noder: ni ellir rhoi cefnogaeth i gael gradd llwyddo). Cymhwyso mewn gweithgareddau anarferol. Dangos o fewn cyfyngiadau amser a/neu adnoddau. Cynhyrchu atebion amrywiol (gan gynnwys rhai anarferol). Addasu technegau/prosesau i sefyllfaoedd. 	<p>Nodweddion amlinellol — rhagoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Dangos creadigrwydd/gwreiddioldeb/syniadau personol. Cymhwyso sgil(iau) i gyflawni canlyniad lefel uwch. Dethol a defnyddio'n llwyddiannus o ystod o dechnegau/prosesau/sgiliau uwch. Myfyrto am gaffael a chymhwyso sgiliau. Cyfiawnhau cymhwyso sgiliau/dulliau. Llunio barn ar risgiau a chyfyngiadau technegau/prosesau. Arloesi neu gynhyrchu cymhwyso technegau/prosesau ar gyfer sefyllfaoedd newydd.

Parth graddio 3	Nodweddion aminellol — teilyngdod	Nodweddion aminellol — rhagoriaeth
<p>Datblygiad personol ar gyfer rolau galwedigaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymryd cyfrifoldeb wrth gynllunio ac ymgymryd â gweithgareddau. • Adolygu anghenion datblygu personol. • Canfod a defnyddio ffynonellau gwybodaeth perthnasol. • Gweithredu o fewn cyd-destun sy'n gysylltiedig â gwaith gan ddangos dealltwriaeth o gyfrifoldebau. • Nodi cyfrifoldebau cyflogwyr i'r gymuned a'r amgylchedd. • Cymhwyso nodweddion sy'n gysylltiedig â'r sector galwedigaethol. • Mewnoli sgiliau/rhinweddau (creu hyder). 	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli ei hun i gyflawni canlyniadau'n llwyddiannus. • Cynllunio ar gyfer dysgu a datblygu drwy'r gweithgareddau. • Dadansoddi a thrin gwybodaeth i lunio canlyniadau. • Cymhwyso blaengaredd yn briodol. • Aseu sut byddai gwahanol gyd-destunau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn newid perfformiad. • Gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chyd-destunau gwaith. • Cymhwyso meddwl dargyfeiriol a meddwl ochrol mewn cyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith. • Deall rhyngddibyniaeth.
<p>Parth graddio 4</p> <p>Cymhwyso sgiliau generig ac allweddol</p>	<p>Nodweddion aminellol — teilyngdod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu gan ddefnyddio iaith dechnegol/broffesiynol briodol. • Llunio barn mewn cyd-destunau gydag esboniadau. • Esbonio sut i gyfrannu o fewn tîm. • Gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion/disgwyliadau eraill (sgiliau cyd-drafod). • Dethol a chyfiawnhau atebion i broblemau penodedig. 	<p>Nodweddion aminellol — rhagoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno i hun a chyfathrebu gwybodaeth i ddiwallu anghenion cynulleidfifa nodweddiadol. • Gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau gyda chyfiawnhad. • Cynhyrchu allbynnau dan gyfyngiadau amser/adnoddau. • Myfyrto ar gyfraniad personol at weithio mewn tîm. • Creu atebion newydd neu amgen i broblemau penodedig.

Atodiad C

Sgiliau allweddol

Mae holl gymwysterau Cyntaf BTEC yn cynnwys mapio/postnodi sgiliau allweddol. Mae'r rhain yn sgiliau trosglwyddadwy, sy'n chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu effeithiolrwydd personol ar gyfer bywyd fel oedolyn a bywyd gwaith ac wrth gymhwyso sgiliau galwedigaethol penodol.

Ym mhob uned mae'r cyfleoedd i greu tystiolaeth ar gyfer sgiliau allweddol wedi'u postnodi. Cysylltiadau amlinellol yn unig yw'r rhain. Bydd angen i diwtoriaid ymgyswddo â'r manylebau sgiliau allweddol a'u gofynion tystiolaeth ac fe'u cynghorir i beidio â dibynnu ar y postnodiadau yn yr unedau wrth gyflwyno tystiolaeth sgiliau allweddol ar gyfer safoni. Dylai canolfannau gyfeirio at wefan QCA (www.qca.org.uk) ar gyfer y safonau sgiliau allweddol diweddaraf.

Mae sgiliau allweddol yn darparu sylfaen ar gyfer dysgu parhaus. Maent yn galluogi ac yn grymuso unigolyn sy'n anochel yn wynebu cyfres o ddewisiadau yn eu gwaith, eu haddysg a'u hyfforddiant drwy gydol eu bywydau. Mae mentrau presennol a rhai'r dyfodol fel cyswllt dysgu, dysgu gydol oes ac ymestyn cyfranogiad i gyd yn galw am boblogaeth fwy hyblyg yn y gweithle ac mae sgiliau allweddol yn chwarae rôl wrth osod y fframwaith.

Mae angen cyfle i ddysgwyr ddangos i gyflogwyr presennol a rhai'r dyfodol eu bod yn gallu:

- cyfathrebu'n effeithiol, mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio ystod eang o dechnegau
- gweithio'n dda gydag eraill — unigolion neu dimau — fel y gellir cynllunio gwaith yn gywir a chyrraedd targedau
- rheoli eu datblygiad eu hunain, fel eu bod yn barod bob amser i wynebu heriau newid ac amrywiaeth
- defnyddio rhif, nid yn unig o fewn tasgau a swyddogaethau arferol ond i'w helpu i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ym mhopeth a wnânt
- defnyddio TGCh mewn ystod o gymwysiadau i gefnogi pob agwedd ar eu rôl
- datrys problemau mewn amrywiaeth o amgylchiadau.

Mapio'r sgiliau allweddol – crynodeb o'r cyfleoedd a awgrymir ym mhob uned

Sgiliau allweddol	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8
Rh2.1						✓		
Rh2.2						✓		
Rh2.3								
C2.1a	✓		✓	✓	✓	✓	✓	
C2.1b	✓		✓	✓	✓	✓	✓	
C2.2	✓		✓	✓	✓	✓	✓	
C2.3	✓		✓	✓		✓	✓	
TGCh2.1		✓					✓	✓
TGCh 2.2		✓					✓	✓
TGCh 2.3		✓					✓	✓
GDP2.1	✓				✓			✓
GDP2.2					✓			✓
GDP2.3					✓			✓
DP2.1			✓		✓			
DP2.2			✓		✓			
DP2.3			✓		✓			
GGE2.1	✓		✓		✓			✓
GGE2.2	✓		✓		✓			✓
GGE2.3	✓		✓		✓			✓

Atodiad D

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/mapio gydag NVQ

Mae'r gridiau canlynol yn mapio'r wybodaeth a gwmpesir yn Nhystysgrif Gyntaf BTEC a Diploma Cynntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn erbyn gwybodaeth sylfaenol yr NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol CSS Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant.

ALLWEDD

- ✓ yn nodi bod Lefel 2 Edexcel yn cwmpasu holl wybodaeth sylfaenol uned yr NVQ
- # yn nodi bod uned yr NVQ yn cael ei chwmpasu'n rhannol
- mae gwagie yn dynodi'r ffaith nad yw'r wybodaeth sylfaenol yn cael ei chwmpasu

Unedau	1	2	3	4	5	6	7	8
NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant								
GDDP 201: Cyfrannu at berthnasau cadarnhaol			✓					
GDDP 202: Helpu i gadw plant yn ddiogel		✓						
GDDP 203: Cefnogi Datblygiad Plant	#		#	#	#	#	#	#
GDDP 204: Defnyddio cefnogaeth i ddatblygu eich arfer eich hun mewn gofal, dysgu a datblygiad plant					✓			✓
GDDP 205: Paratoi a chynnal amgylcheddau i ddiwallu anghenion plant				✓				
GDDP 206: Cefnogi chwarae a dysgu plant								
GDDP 207: Cyfrannu at effeithiolrwydd timoedd								
GDDP 208: Cefnogi datblygiad babanod a phlant o dan dair oed							✓	

Unedau	1	2	3	4	5	6	7	8
NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant								
GDDP 209: Cefnogi plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig						#		✓
GDDP 210: Cefnogi chwarae plant a phobl ifanc						#		

Atodiad E

Mapio'r cwricwlwm ehangach

Mae astudio cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal ag ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, datblygiadau Ewropeaidd, ystyriaethau iechyd a diogelwch a materion cyfle cyfartal.

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at feysydd cwricwlaidd ehangach fel sy'n briodol.

Materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol

Mae'r fanyleb yn cyfrannu at ddealltwriaeth o:

- faterion ysbrydol — yr ymdrinnir â hwy ym mhob agwedd o weithio â phlant, yn enwedig mewn perthynas sâ deall credoau crefyddol a diwylliannol plant a theuluoedd. Mae datblygiad plant yn cynnwys dimensiwn ysbrydol o ran yr angen i feithrin hunan-barch, datblygiad emosiynol a pherthnasau rhwng plant ac oedolion. Dangosir hyn yn benodol yn *Uned 1: Deall Datblygiad Plant*
- materion moesol a moesegol — yr ymdrinnir â hwy ym mhob agwedd o weithio â phlant, yn enwedig mewn perthynas â rheoli ymddygiad, deall dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol wrth weithio gyda phlant a rhieni
- materion cymdeithasol a diwylliannol — yr ymdrinnir â hwy ym mhob agwedd o'r BTEC Cyntaf mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, a rhaid eu hystyried ym mhob agwedd o waith gofal plant.

Materion amgylcheddol

Arweinir dysgwyr i werthfawrogi pwysigrwydd materion amgylcheddol drwy brofiad o'r sector gofal, dysgu a datblygiad plant, yn *Uned 4: Paratoi a Chynnal Amgylcheddau ar gyfer Gofal Plant*.

Datblygiadau Ewropeaidd

Mae llawer o gynnwys cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn berthnasol ledled Ewrop er mai yng nghyd-destun y DU y caiff ei gyflwyno.

Ystyriaethau iechyd a diogelwch

Mae cymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant wedi'u seilio ar sgiliau ymarferol ac felly deuir ar draws materion iechyd a diogelwch drwy'r unedau i gyd. Bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch eraill ym mhob gweithgaredd ymarferol. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio materion iechyd a diogelwch ar draws y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, yn benodol yn *Uned 2: Cadw Plant yn Ddiogel*.

Materion cyfle cyfartal

Mae materion cyfle cyfartal yn hollbresennol drwy holl gymwysterau Cyntaf BTEC Lefel 2 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mapio'r cwricwlwm ehangach

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8
Materion ysbrydol	✓				✓			✓
Materion moesol a moesegol		✓			✓	✓		✓
Materion cymdeithasol a diwylliannol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Materion amgylcheddol		✓		✓		✓		✓
Datblygiadau Ewropeaidd								
Ystyriaethau iechyd a diogelwch		✓		✓				
Materion cyfle cyfartal			✓			✓	✓	✓

Atodiad F

Craidd Cyffredin Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer Mapio'r Gweithlu Plant

Gellir gweld agweddau o'r craidd cyffredin ym mhob agwedd o waith gyda phlant ac felly maen nhw'n bresennol ym mhob agwedd o unedau'r BTEC Cyntaf mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cysylltiadau rhwng yr unedau a'r craidd cyffredin isod yn dangos lle y ceir prif agweddau'r craidd cyffredin.

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8
Cyfathrebu a chysylltu'n effeithiol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd			✓			✓	✓	✓
Datblygiad plant a phobl ifanc	✓		✓	✓		✓	✓	✓
Diogelu a hybu lles y plentyn		✓		✓				
Cefnogi trawsnewidiadau	✓			✓				
Gwaith amlasiantaeth					✓			
Rhannu gwybodaeth		✓	✓		✓		✓	✓

Atodiad G

Mapio Fframwaith Materion Genedigaeth i Dair Oed

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6	Uned 7	Uned 8
Cyfathrebwr medrus	✓		✓				✓	✓
Plentyn cryf	✓		✓	✓			✓	✓
Dysgwr da	✓		✓	✓		✓	✓	✓
Plentyn iach		✓		✓		✓	✓	✓

Ceir rhagor o gopiau o'r cyhoeddiad hwn gan
Edexcel Publications, Adamsway, Mansfield, Notts, NG18 4FN

Ffôn 01623 467467
Ffacs 01623 450481
Ebost: publications@linneydirect.com

Cod Cyhoeddi BA017427 Medi 2006

Am fwy o wybodaeth ar Edexcel a chymwysterau BTEC cysylltwch â
Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800
neu <http://enquiries.edexcel.org.uk>
neu edrychwch ar ein gwefan: www.edexcel.org.uk

Edexcel Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif. 4496750
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, London WC1V 7BH

